Prosiect Ymchwil Weithredu gan Glwstwr Pen-Y-Dre

Canllaw i Arferion Da wrth leihau rhwystrau at ddysgu trwy fentrau deallusrwydd emosiynol a hunan-fri

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ysgolion sy'n rhan o'r prosiect

Ysgol Gynradd Gellifaelog

Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre

Ysgol Gynradd Pantysgallog

Ysgol Fabanod Goetre – Ysgol Arweiniol

Ysgol Gynradd Dowlais

Meithrin Gurnos

1. Rhagarweiniad

Pwrpas y llyfryn hwn yw rhannu canfyddiadau ac arferion da'r ysgolion yn y clwstwr Pen-Y-Dre sy'n cymryd rhan yn Rhaglen RHAGORI ('RAISE') 2009-2010, sy'n ffocysu ar wella Lles Emosiynol.

Gellir disgrifio'r holl ysgolion sy'n cymryd rhan fel rhai a chanddynt lefelau uchel o amddifadedd sosio-economaidd, lle bo cyfran uchel o blant yn cychwyn eu haddysg ffurfiol gydag oedi mewn iaith sylweddol. Mae canran y plant sy'n cael cinio ysgol am ddim a'r rheiny sy'n cael dysgu ychwanegol o dan y categori Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yn uchel. Yn sgil y problemau rydym ni'n eu hwynebu fel clwstwr, teimlasom yr angen i adeiladu ar y gwaith da ar lythrennedd a wnaed yn y prosiectau RHAGORI blaenorol. Er mwyn gwneud cynnydd yn y maes hwn, ac wedi ymchwilio i raglenni eraill, cefnogodd yr holl ysgolion sy'n cymryd rhan Gynllun Gwaith SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu).

Mae'r rhaglen SEAL wedi'i seilio ar ddeunyddiau cwricwlwm sy'n ceisio datblygu'r rhinweddau a'r sgiliau tanategol sy'n helpu i hyrwyddo ymddygiad positif a dysgu effeithiol.

Nod y prosiect oedd defnyddio'r rhaglen SEAL i

- wella lles emosiynol, hunan-fri plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu ymgysylltu â dysgu a gwella eu datblygiad iaith
- darparu cyfle yn y cwricwlwm i wneud yn iawn am ddiffyg profiad disgyblion trwy fynd i'r afael â materion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion trwy siarad a gwrando, drama, ABGI, datblygu sgiliau meddwl
- RHAGORI ar safonau darllen ac ysgrifennu
- olrhain cynnydd disgyblion ac ymyrryd yn fuan os bydd dysgu disgyblion yn llithro.
- cysylltu â gwaith presennol ar Addysg Gwerthoedd
- tynnu ar ysgolion partneriaeth i gefnogi'r prosiect
- rhannu a lledaenu arfer gorau yn nhermau canlyniadau.

Diffiniad deallusrwydd emosiynol yw

"gallu pobl i adnabod, deall, ymdrin â a mynegi'n briodol eu hemosiynau eu hunain ac i adnabod, deall ac ymateb yn briodol i'r emosiynau y mae eraill yn eu mynegi"

Mae'r clwstwr o ysgolion wedi bod yn rhan o'r Rhaglen Hyfforddi Datblygiad Proffesiynol ar Ddeallusrwydd Emosiynol Think2Learn a weithredir gan ESIS.

Prif amcanion yr hyfforddiant hwn oedd

- galluogi athrawon i gael gwell dealltwriaeth o Ddeallusrwydd Emosiynol
- galluogi athrawon i gael dealltwriaeth o 5 cymhwysedd allweddol Deallusrwydd Emosiynol a sut y mae'r rhain wedi'u cysylltu â dysgu
- archwilio ffyrdd y gellir hyrwyddo deallusrwydd emosiynol ar lefel unigol, dosbarth ac ysgol gyfan

Cefnogodd yr HMS hwn ein Prosiect Ymchwil Gweithredu RHAGORI.

Beth yw SEAL?

Gan mai swydd ysgol yw helpu plentyn i gyrraedd ei b/photensial llawn, yna mae'n llesol iawn i ysgol ddeall sut i alluogi plentyn i gaffael y sgiliau meddwl a dysgu angenrheidiol i helpu ei disgyblion ar lwybr o ddysgu gydol oes, a dyn pham rydym wedi mabwysiadu ymagwedd SEAL. Mae ymchwil seicolegol wedi pwysleisio bod rôl hunan-fri, hunanymwybyddiaeth a'n hymdeimlad o hunan-cymhwysedd yn ffactor allweddol wrth bennu pwy sy'n llwyddo mwyaf. Ers blynyddoedd, mae ysgolion wedi bod yn cymryd rhan mewn mentrau niferus i godi safonau, ond er mwyn i unrhyw un o'r rhain gael yr effaith fwyaf, mae angen i'r plentyn dan sylw fod yn llythrennog yn emosiynol. Ystyr bod yn llythrennog yn emosiynol yw bod yn hunanymwybodol, yn llawn cymhelliant a meddu ar hunanystyriaeth bositif. Nid yw unrhyw un yn mynd i allu cyrraedd eu potensial llawn os nad oes ganddynt gyfeiriad meddwl positif ac os nad ydynt yn gallu rheoli eu hemosiynau. Dywedodd y niwrofiolegydd Joseph LeDoux

"Minds without emotions are not really minds at all…They are souls on ice…lifeless, devoid of any desires, fears, sorrow, pains or pleasures." (LeDoux, J. 1998)

Mae'r cynllun gwaith SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu) yn cael ei dorri i lawr yn saith thema, sef

1. Dechreuadau Newydd
2. Gyrru ymlaen a Ffraeo
3. Dweud Na i Fwlio
4. Mynd am Oliau!
5. Da yw bod yn Fi
6. Perthnasoedd
7. Newidiadau

O fewn y themâu hyn mae sgiliau fel ymdrin â theimladau fel dicter a rhwystredigaeth, gyrru ymlaen ag eraill, datrys dadleuon yn deg, teimlo'n hyderus, cymryd cyfrifoldeb a chyflawni llwyddiant yn cael eu cwmpasu.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig y canlynol i'r darllenwr:

- Amlinelliad o'r hyn y gall SEAL ei gynnig a sut y gellir ei gyfuno â'r cwricwlwm
- Disgrifiad o fanteision defnyddio'r system aml-asiantaeth sydd o'n cwmpas
- Syniadau ar gyfer cynnwys y gymuned
- Catalog o resymau dros pam mai llythrennedd emosiynol yw echelbin cyflawni llwyddiant personol

2. Rhaglen RHAGORI 2009-2010

Adroddiad Terfynol -Teitl y Prosiect- Gwella Lles Emosiynol

"I am still learning." (Michaelangelo)

Ysgolion sy'n cymryd rhan:

Ysgol Fabanod Goetre – Ysgol Arweiniol

Ysgol Iau Goetre

Meithrin Gurnos

Ysgol Gynradd Dowlais

Ysgol Gynradd Gellifaelog

Ysgol Gynradd Pantyscallog

Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre

Mae pob ysgol wedi defnyddio'r adnodd cwricwlwm SEAL i geisio datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddwyn disgyblion. Maent wedi gwneud hynny trwy ddatblygu rhaglen o ddysgu sy'n unigryw ac yn benodol at anghenion disgyblion eu hysgol.

Asiantaethau Eraill sy'n Cymryd Rhan:

Gan weithio o fewn cyd-destun fel ein un ni, bu i ni gydnabod yr angen i ddatblygu cysylltiadau cryf trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddiogelu gwelliant ysgol gyfan ac felly gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i blant lwyddo ar draws ein cymunedau ysgol.

Yr hyn sy'n gyrru'r prosiect RHAGORI yw ymrwymiad parhaus ar draws pob ysgol i fynd i'r afael â thangyflawni ac yn y pen draw, i godi safonau.

Mae'r holl ysgolion wedi rhedeg rhaglen SEAL trwy'r defnydd effeithiol o'r Bartneriaeth Aml-Asiantaeth sydd o fewn Clwstwr Pen-Y-Dre.

1. Tîm Rhaglenni i Deuluoedd - Cynorthwywyr Cymorth Dysgu wedi'u hyfforddi mewn sut i ddefnyddio Pecynnau Rhieni SEAL
2. Prifysgol Morgannwg - Hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Ymchwil Weithredu
3. Tîm Cefnogi Ymddygiad
4. Taith Cymru
5. Barnardos
6. ESIS
7. Gweithwyr Proffesiynol Iechyd
8. Swyddogion Lles Addysgol

Mae'r holl ysgolion wedi ceisio sefydlu grŵp rhieni, i'w redeg gan diwtor o'r Tîm Rhaglenni i Deuluoedd. Fodd bynnag, bu'r rhain yn fwy llwyddiannus mewn rhai lleoedd nag mewn eraill. At hyn, mae brwdfrydedd at grwpiau o'r fath yn wahanol ym mhob grŵp blwyddyn, felly fe fydd yn parhau i fod yn fenter barhaus gyda phob dosbarth derbyn newydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Cysylltiadau â Mentrau RHAGORI

Mae'r prosiect wedi targedu disgyblion dan anfantais trwy'r grwpiau o blant a nodwyd mewn ysgolion a'u teuluoedd trwy weithdai i rieni. Mae'r prosiect hwn yn cysylltu'n glir iawn â'r themâu RHAGORI eraill ac yn adeiladu ar weithgareddau RHAGORI ar draws yr ysgolion, fel;

- datblygu sgiliau iaith cynnar trwy arbenigedd Therapydd Lleferydd ac Iaith h.y. Addysgu Siarad, Cymorth Ymddygiad
- ymagwedd plentyn cyfan, teulu cyfan a chymunedol at ddatblygu iaith
- hyfforddi Cynorthwywyr Cymorth Dysgu mewn Dal i Fyny
- Hyfforddiant Ymchwil Weithredu Consortiwm gyda Alama Harris
- Mewnbwn deunyddiau a hyfforddiant Prifysgol Southampton gan Katherine Weare

Cysylltiadau â Mentrau Eraill

Un o brif nodau'r prosiect hwn oedd meithrin y cysylltiadau â mentrau eraill sydd eisoes ar waith, fel yr Asiantaeth Cymorth i Deuluoedd, Gwasanaethau Cynhwysiant a Lles, gweithwyr proffesiynol iechyd, arweinwyr crefyddol, llywodraethwyr a rhieni, a thrwy hyn sicrhau rhwydwaith o ymarfer, ymyrraeth a chymorth proffesiynol. Gan fod ysgolion o ar draws y cyfnodau allweddol yn cymryd rhan, mae hyn wedi helpu i sicrhau parhad y gefnogaeth rhwng cyfnodau allweddol addysg; yn fwyaf nodedig, yr un o'r cartref i'r dosbarth Meithrin/Derbyn, Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 2 i gyfnod Allweddol 3. Hefyd, mae'n ceisio gwneud cysylltiadau â mentrau parhaus eraill fel Rhaglenni Rhianta, hyfforddiant SAP, Spot Light, Dechrau'n Deg, Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Dal i Fyny. Mae Dal i Fyny'n cysylltu â thema llythrennedd prosiect RHAGORI yn Afontaf. O ganlyniad, byddai'r prosiect hwn yn rhoi ystod o ymyraethau i rieni allu cefnogi disgyblion yn y cartref. Yn yr ystafell ddosbarth, mae wedi atgyfnerthu'r rhaglenni sgiliau meddwl, Gwrando ar Ddysgwyr, Cynllun Ysgolion Iach, Iaith a Chwarae, Adwy Ysgol ac AagD (Asesu ar gyfer Dysgu) y mae gofyn i ysgolion eu dilyn.

Disgrifiad o Weithgareddau Lledaenu

Cafodd ein cais RHAGORI ei gadarnhau ym mis Tachwedd ac ni chafodd SEAL ei lansio yn y fwrdeistref gyfan hyd fis Ionawr, a olygodd bod y prosiect hwn yn anghysain â'r flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, erbyn hyn rydym wedi gallu dechrau ymagwedd fwy trylwyr ym mis Medi.

Anogwyd pob ysgol i gynnwys cyfleoedd i rannu profiadau ymysg ei gilydd yn eu hamserlenni. Fel arfer, mae'r rhain wedi bod ar ffurf cyfarfodydd staff. Fodd bynnag, fel clwstwr, mae'r penaethiaid ac amryw aelodau o staff sy'n rhan o gynnal prosiect peilot SEAL wedi sefydlu grŵp llywio ac wedi penodi cydlynydd. Mae'r holl bersonél sy'n cymryd rhan wedi cwrdd yn rheolaidd i drafod manteision a ffaeleddau'r prosiect. Cafodd y cydlynydd y cyfle i ymweld â'r holl ysgolion i arsylwi ac i fonitro gwersi ac i siarad gyda staff am unrhyw ymholiadau. Yn anad dim, rôl y cydlynydd oedd cysylltu â a rhannu canfyddiadau rhwng yr ysgolion. Hefyd, cawsom hyfforddiant clwstwr ar SEAL mewn sesiynau gyda'r hwyr a gynhaliwyd gan Yr Athro Katherine Weare o Brifysgol Southampton. Cawsom y cyfle i ledaenu sesiynau gyda chonsortia eraill sy'n cwmpasu pynciau tebyg a dysgu gan eu profiadau. Mae cynhadledd wedi'i threfnu gennym ar gyfer hanner cyntaf mis Tachwedd, lle rydym yn bwriadu lansio ein casgliad o astudiaethau achos mewn ffurf argraffedig ac electronig i bawb eu defnyddio. Yn y digwyddiad hwn bydd Val Jones yn bresennol i lansio'r Pecyn Cymorth Lles a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio rhannu'r digwyddiad hwn gyda chlwstwr Afontaf a gwahodd holl benaethiaid ysgolion Merthyr, aelodau asiantaethau a'r gymuned sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect, ynghyd â chynrychiolwyr o'r AALI, RHAGORI a Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn gweithio a dysgu'n gydweithredol. Wrth wneud hyn, ein gobaith yw cael effaith ehangach ar ein dealltwriaeth o anfantais sosio-economaidd mewn addysg.

Prif Ganfyddiadau'r Gwerthusiad

- mae llythrennedd emosiynol yn chwarae rhan allweddol mewn cyflawniad personol
- mae yna gyswllt cryf rhwng tlodi a thangyflawniad
- er mwyn iddo barhau i lwyddo, rhaid meithrin ymagwedd teulu cyfan
- yr angen am ymagwedd teulu cyfan
- yr angen i lythrennedd emosiynol gael ei addysgu'n gyson rhwng y cyfnodau allweddol ac yn y gymuned gyfan er mwyn gwneud trosglwyddo'n haws
- mae diffyg iaith/geirfa'n rhwystr at ddeall eich teimladau
- mae plentyn sy'n fwy llythrennog yn emosiynol yn ddysgwr mwy annibynnol
- mae angen i agweddau o lythrennedd emosiynol fod yn y datganiad cenhadaeth ac yn amlwg yn holl ethos yr ysgol
- mae angen i lythrennedd emosiynol gael ei wau i mewn i'r cwricwlwm ac nid cael ei ystyried yn bwnc ychwanegol
- nid yw gwella safonau'n mynd i ddigwydd dros nos, yn hytrach, bydd yn cymryd amser
- yr angen am asesiad cychwynnol cynhwysfawr clir i'w ddefnyddio'n waelodlin
- nid yw ymddygiad da o reidrwydd yn creu dysgwr da

Gwerthuso'r Fenter yn ei Chyfanrwydd

Bu hyn yn enghraifft dda o gymuned ddysgu broffesiynol, grŵp cynhwysol o bobl sy'n cael eu cymell gan weledigaeth ddysgu gytûn ac sydd wedi cefnogi a gweithio gyda'i gilydd gan ddod o hyd i ffyrdd y tu fewn a thu allan i'w cymuned gyfagos i holi am eu hymarfer a dysgu gyda'i gilydd am ymagweddau newydd a gwell a fydd yn gwella dysgu pob disgybl.

Wedi ymgymryd â'r holiaduron cychwynnol fel rhan o'r rhaglen SEAL soniodd pob ysgol am y ffaith bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn rhy anodd i ran fwyaf y disgyblion agored i niwed yr oedd yr holiadur wedi'i anelu atynt. O ganlyniad, bydd mwy o waith yn cael ei wneud ar roi'r eirfa angenrheidiol i'r plant er mwyn eu galluogi i siarad amdanyn nhw eu hunain ac am sut maent yn teimlo'n gliriach. Bydd pob ysgol yn ymdrechu i greu rhaglen ddysgu ymarferol i wella addysgu Llythrennedd Emosiynol. Ar gyfer y rhain, mae'r holl ysgolion yn bwriadu defnyddio'r adnoddau a roddwyd gan ESIS ar Lythrennedd Emosiynol a'r hyfforddiant a ddarparwyd yn y seminar Lles. Hefyd, o fis Medi 2010, bydd yr holl ddosbarthiadau o flwyddyn 1 i fyny, yng nghlwstwr Pen-Y-Dre, yn defnyddio'r Arolwg PASS yn waelodlin wrth asesu. Bydd hwn yn gallu cymharu canlyniadau rhyw, grŵp blwyddyn a grwpiau ethnig gyda rhai plant eraill yn genedlaethol. Llunnir y data hwn trwy ddefnyddio meincnod sydd wedi'i seilio ar chwarter miliwn o blant yn genedlaethol. Bydd yr asesiad ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei wneud trwy ddefnyddio canllawiau gwaelodlin 2010.

Mae'n amlwg bod meithrin y gwybyddol gyda'r emosiynol yn fanteisiol i unrhyw ysgol. Cafodd hyn ei gydnabod gan y Llywodraeth yng Nghymru a Lloegr. Yn Fframwaith EffeithiolrwyddYsgolion Cymru, mae'n cydnabod bod plant yn "dysgu'n well os oes ganddynt ddeallusrwydd emosiynol datblygedig" (FfEY, t.23) ac mae'n mynd yn ei flaen i hyrwyddo'r rhaglenni hynny sy'n helpu plentyn gyda'r deallusrwydd hwn gan mai hwn yw'r "ffactor allweddol wrth ddysgu'n efeithiol." (FfYE, t.23).

Nid yw'r ffaith fod yna gyswllt rhwng tlodi a thangyflawniad yn wybodaeth newydd, ond wrth ymgymryd â'r prosiect hwn rydym wedi gallu darganfod ymhle y mae ar y plant hyn angen yr help mwyaf a nawr gallwn roi gweithdrefnau ar waith i'w helpu i gyflawni llwyddiant pellach.

O ganlyniad, mae angen i lythrennedd emosiynol dreiddio allan i'r gymuned ehangach. Mae angen i'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol gael ei fodelu yn y cartref hefyd, er mwyn cael yr effaith mwyaf posibl. Am y rheswm hwn, mae'r holl ysgolion wedi ceisio sefydlu grwpiau rhieni sydd wedi llwyddo i wahanol lefelau, ond mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn parhau i roi cynnig arno. At hyn, mae angen rhoi amser i werth addysgu llythrennedd

emosiynol weithio'i ffordd trwy'r system, gan fod a wnelo hyn mwy a newid ffordd o fyw ac yn amlwg bydd hyn yn cymryd amser cyn y bydd unrhyw gwir welliant yn weladwy.

Mae cael y cyfle i weithio gyda'n gilydd mewn ffordd o'r fath wedi elwa'r disgyblion a'r staff. Er ei fod yn rhy gynnar i ddangos unrhyw ganlyniadau go-iawn, gan nad ydyw wedi'i sefydlu ers digon o amser, mae'r arwyddion cychwynnol yn addawol. Mae'r plant sydd wedi cymryd rhan hyd yma yn ymddangos yn fwy hyderus ac yn fwy ymwybodol o'u teimladau a'u cyfrifoldebau. Hefyd, mae'r holl fecaneg yn eu lle i ddechrau addysgu DE yn fwy cynhwysfawr ac i asesu anghenion y disgyblion.

Mae'r holl ysgolion yn cydnabod, er mwyn i hyn gael yr effaith fwyaf posibl, na ddylid ystyried llythrennedd emosiynol yn bwnc ychwanegol i'r cwricwlwm presennol, ond yn rhan annatod o holl feysydd bywyd yr ysgol. Yn anad dim, mae angen iddo fod yng ngweledigaeth yr ysgol ac yn amlwg yn ethos cyfan yr ysgol. Bydd llythrennedd emosiynol yn adennill amser yn yr ysgol gan y bydd yn effeithio ar allu'r plant i weithio'n annibynnol, ac felly i fod yn fwy cyfrifol am eu dysgu eu hunain.

"They are likely to start working more effectively together..." a "they are better placed to communicate information and develop ideas." (The Emotional Literacy Handbook, David Fulton Publishers Ltd, 2003)

I sicrhau cynaliadwyedd addysgu DE rhaid ei wau i mewn i'r Cynllun Datblygu Ysgol. Yn y pen draw, nid dim ond y plant sydd wedi elwa o'r prosiect hwn, mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan ynddo wedi elwa hefyd. Mae gweithio gyda'i gilydd ar SEAL wedi creu clwstwr mwy effeithiol sy'n rhannu ei ganfyddiadau ac yn dysgu'n gyson oddi wrth ei gilydd.

Y Ffordd Ymlaen

- parhau i rannu a gweithio gyda'n gilydd fel clwstwr
- defnyddio PASS i amlygu'r plant hynny a chanddynt ddiffyg deallusrwydd emosiynol
- gwau addysgu deallusrwydd emosiynol i mewn i'r Cynllun Datblygu Ysgol

Cyfraniadau a Wnaed i Flaenoriaethau a Mentrau Cenedlaethol a Lleol Eraill

- Cynllun Strategol AALl
- Mentrau Llythrennedd
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc "Gweithredu'r Hawliau" yn cysylltu â phob un o'r 7 Nod Craidd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd
- Ysgolion Iachach
- Buddsoddwyr mewn Teulu
- Agenda Lles

Cysylltiadau â Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

- Annog **arweinyddiaeth wasgaredig**- wedi trawsnewid dysgu trwy arweinyddiaeth athrawon; athrawon yn grymuso athrawon eraill ac yn arwain athrawon eraill
- Hybu **gweithio gydag eraill** ar draws y cyfnodau ac yn fewnol, rhannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd a arweiniodd at Gynhadledd
- Enghraifft dda o **Gymuned Ddysgu Broffesiynol (PLC)**
- **Gwelliant ac Atebolrwydd**– cysylltu SEAL â Rheoli Perfformiad fel targed datblygu ysgol gyfan.
- **Cwricwlwm ac Addysgu** – wedi'i fewnosod ar draws y cwricwlwm, wedi cynllunio ar ei gyfer mewn gweithgareddau addysgu.
- **Ymyrraeth a Chymorth – Hyfforddiant** ar Lythrennedd Emosiynol, SEAL a SAP

3. Ysgol Gynradd Gellifaelog

Adroddiad Terfynol-Teitl y Prosiect – Gwella Lles Emosiynol

Mae Ysgol gynradd Gellifaelog wedi'i lleoli yn rhanbarth Penydarren Merthyr Tudful ac mae'n gwasanaethu ar ardaloedd dalgylch Penydarren a Galon Uchaf. Mae'r ardal o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mae gan yr ysgol ddosbarth meithrin a saith o ddosbarthiadau gallu cymysg, ac mae rhai o'r rhain o oedrannau cymysg. Mae gan ganran uchel o blant sy'n dechrau'r ysgol sgiliau personol, cymdeithasol ac academaidd gwael, fel sydd wedi'i adlewyrchu yn asesiadau gwaelodlin yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae yna 205 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 39% o blant yn cael cinio ysgol am ddim ac mae 82 o ddisgyblion (40%) ar y gofrestr ADY, gan gynnwys 62 ar Weithredu gan yr Ysgol ac 19 ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Cynaliadwyedd o fewn y Rhaglen RHAGORI

Defnyddiwyd yr arian RHAGORI blaenorol i gefnogi strategaethau i godi safonau cyrhaeddiad mewn llythrennedd. Bu'r strategaethau hyn yn llwyddiannus ac erbyn hyn maent wedi'u mewnosod yn gadarn ym mholisi llythrennedd yr ysgol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'n proses hunanwerthuso, daethom i'r casgliad bod angen i ni ddatblygu strategaethau a fydd yn datblygu'r 'plentyn cyfan', o fewn yr ysgol ac yn y cartref, os ydym am wneud gwelliannau sylweddol i ddysgu gydol oes ein disgyblion. Dechreuasom archwilio i strategaethau a fyddai'n gwella lles cymdeithasol ac emosiynol ein disgyblion. Fel clwstwr, bu i ni gyd gydnabod pwysigrwydd gwella Deallusrwydd Emosiynol disgyblion a chymerasom ran yn hyfforddiant Think2Learn ESIS a oedd yn cynnwys modiwl ar Ddeallusrwydd Emosiynol. Fe ddaeth hyn yn flaenoriaeth i'n clwstwr, ac rydym wedi bod yn ddigon ffodus i gael cymorth bellach gan RHAGORI i ddatblygu'r prosiect ymchwil weithredu hwn.

Disgrifiad o Weithgareddau yr Ymgymerwyd â Nhw

Y gweithgaredd cychwynnol oedd cyflwyniad hyfforddiant clwstwr a ddarparwyd gan Katherine Weare a oedd yn amlinellu'r dystiolaeth a'r egwyddorion allweddol sy'n rhan o ymagwedd gynhwysfawr at SEAL. Yna, penderfynodd pob ysgol ar sut y byddent yn defnyddio SEAL i ymdrin ag anghenion eu disgyblion eu hunain. Yna, penderfynasom ar gynhwysion allweddol yr ymagwedd fwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion Gellifaelog:

- Ymagwedd ysgol gyfan
- Integreiddio themâu SEAL i'n cwricwlwm ABCh/Gwerthoedd
- Sefydlu grwpiau targed er mwyn gallu casglu data'n haws
- Defnyddio dangosydd Prydau Ysgol am Ddim i nodi grwpiau targed ym Mlwyddyn 2 a 3.
- Disgyblion, staff a rhieni'n llenwi holiaduron Asesiad ac Ymyrraeth Llythrennedd Emosiynol.
- Pob thema i'w chyflwyno yn y gwasanaeth, a dilyn hyn gyda gwasanaethau wythnosol yn seiliedig ar y thema.
- Pob dosbarth i ddarparu sesiwn wythnosol gan ddefnyddio'r adnoddau SEAL perthnasol
- Gr p rhieni wedi'i sefydlu a'i gefnogi gan y Tîm Rhaglenni i Deuluoedd.
- Defnyddio asiantaethau allanol/y gymuned (Nyrs Ysgol/ Seicolegydd Addysgol/ Athro Cymorth Ymddygiad/ gweinidog lleol) i ddarparu cymorth grŵp sy'n canolbwyntio ar bwnc e.e. rheoli dicter
- Monitro a gwerthuso trwy drafodaethau ac arsylwadau dosbarth.

Amcanion

- Prif nod y prosiect hwn fu i ddefnyddio'r adnoddau cwriclwm SEAL i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion gan ddisgwyl y byddant yn fwy abl i ymgysylltu â dysgu ac yn y pen draw, y byddant yn cyflawni llwyddiant personol gwell.
- Mae pob dosbarth, mewn gwahanol ffyrdd, wedi darparu cyfleoedd yn y cwricwlwm i wneud iawn am ddiffyg profiad disgyblion trwy ymdrin â'u materion cymdeithasol ac emosiynol trwy feysydd tebyg i wrando, drama, ABGI, Addysg Gorfforol a datblygu sgiliau meddwl.
- Rydym wedi darparu cymorth i'n rhieni ac wedi defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael yn ein cymuned leol.
- Rhannu arferion da o fewn ein clwstwr a gyda'r AALl cyfan.
- Sefydlu gweithrediad SEAL fel ein Cymuned Dysgu Proffesiynol (PLC).
- Sicrhau parhad addysgu Deallusrwydd Emosiynol trwy'r holl gyfnodau allweddol.
- Yn y pen draw, codi safonau, nid yn unig ar gyfer y grŵp targed cychwynnol o ddysgwyr, ond ar gyfer holl gohortau dysgwyr y dyfodol hefyd.

Canlyniadau

Ein disgwyliad, yn nhermau perfformiad addysgol, ar gyfer y disgyblion a dargedwyd ar y cychwyn, oedd iddynt ddangos cynnydd yn eu dealltwriaeth o'u teimladau, fel dicter. Hefyd, ein gobaith oedd y byddant yn gwella'u sgiliau mewn gyrru ymlaen ag eraill ac ymdrin ag anghytundebau. Roedd yn uchelgais iddynt fagu mwy o hyder, datblygu lefel o empathi ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb yn gyffredinol am eu gweithredoedd. Fodd bynnag, rydym yn realistic yn ein hymagwedd, ac yn rhagweld y bydd hyn yn cymryd amser hir, a dyna pam fod parhad y prosiect hwn mor bwysig. Mae ein gwerthusiadau cychwynnol wedi dangos y canlyniadau a ganlyn:

- Dealltwriaeth a rennir o egwyddorion allweddol adnoddau SEAL.
- Yr angen i dargedu sgiliau cyfathrebu a datblygu geirfa 'emosiynol' i alluogi disgyblion i gyrchu pynciau ac adnoddau'n llawn.
- Profodd sgiliau iaith a chyfathrebu'n rhwystr at weinyddu'r holiaduron Asesu gyda'r disgyblion a'r rhieni. Bu i'r clwstwr cyfan gydnabod y broblem hon ac erbyn hyn rydym wedi cytuno i weithredu'r arolwg asesu PASS i ymdrin â'r mater hwn.
- Mae cynnwys rhieni'n hanfodol wrth ddatblygu deallusrwydd emosiynol ein disgyblion.

Allbynnau

- Cyfrannu at yr adroddiad gwerthuso ar y gweithgaredd cydweithredol hwn
- Casglu ystod o adnoddau gwerthfawr
- Cynllun gwaith ABCh wedi'i ddiwygio i gynnwys SEAL
- PASS yn cael ei weithredu ym mhob ysgol yn y clwstwr fel offeryn asesu
- Rhannu arferion da ar draws y clwstwr

Disgrifiad o Fonitro a Gwerthuso

Dechreuasom ein prosiect gyda dadansoddiad unigol o'r grŵp targed, ond fel y dywedwyd eisoes, bu'r holiaduron hyn yn annigonol o ran dyfnder yr wybodaeth a ddarparwyd, a hefyd am nad oedd y plant ifanc iawn, a'r rheiny a chanddynt ddiffyg mawr mewn geirfa emosiynol, yn eu deall mewn llefydd. Fodd bynnag, yr hyn a lwyddodd i'w wneud oedd amlygu'r plant hynny a chanddynt y diffyg gwaethaf mewn cymhelliant, hunanymwybyddiaeth, hunanreolaeth, sgiliau cymdeithasol ac empathi.

I ddatrys y broblem hon, mae'r clwstwr cyfan wedi cefnogi'r Arolwg PASS, a bydd angen cymorth oedolyn wrth lenwi hwn hefyd, ond fe fydd yn darparu dadansoddiad manylach o lawer o'r wybodaeth. Mae PASS yn fath o sgrinio, nid diagnosis, ond trwy'r data a ddarperir gallwn flaenoriaethu rhestr atgyfeirio. Bydd yr wybodaeth hon yn hysbysu'r athro dosbarth wrth gynllunio addysgu a chyfleoedd dysgu.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf aethpwyd yn ôl at yr holiaduron SEAL hyn i weld a oedd unrhyw newid. Fel y rhagwelwyd, nid oedd gwir dystiolaeth o unrhyw newid dramatig, ond roedd rhan fwyaf y plant yn fwy ymwybodol o'r rhinweddau yr oedd angen iddynt eu cyflawni, hyd yn oed os nad ydynt eto'n gallu ymgymryd â'r sgiliau hyn. Fel sy'n wir am unrhyw fenter, mae'r pethau hyn yn cymryd amser, ac felly mae parhau i addysgu'r pynciau sydd yn SEAL yn hollbwysig er mwyn i'r disgyblion ddod yn fwy hunanymwybodol ac, yn y pen draw, yn fwy abl i gyflawni llwyddiant personol.

Fel yr holiaduron, mae rhai o'r taflenni gwaith a ddarparwyd gan SEAL yn disgwyl lefel benodol o ddealltwriaeth ac nid oeddynt o fewn cyrraedd rhai o'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r staff wedi gorfod bod yn greadigol gyda rhai ohonynt, a chymryd cam yn ôl a threulio amser, er enghraifft, yn adeiladu geirfa teimladau.

Hefyd, bu i ni gynnal arsylwadau dosbarth o'r Meithrin i fyny i flwyddyn 6, sydd wedi rhoi darlun clir i ni o'r cynnydd ar bwnc penodol trwy'r ysgol gyfan. Hefyd, mae hyn wedi'i gefnogi trwy gasglu cynlluniau gwersi, samplau o waith, ffotograffau a darnau o ffilm i gynhyrchu portffolio o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn ein hysgol.

Daeth llawer o bobl i'r grwpiau rhieni a chroesawodd pob rhiant y cyfle i rannu profiadau. Mae pecynnau rhieni SEAL yn adnodd ardderchog ac maent yn darparu gwybodaeth glir a chryno i rieni i'w galluogi i gefnogi eu plant yn y cartref. Mae hwn yn faes y bydd rhaid i ni ddal ati i'w ddatblygu a'i gynnal.

Mae'r wybodaeth a amlygwyd hyd yma gan yr holiaduron SEAL wedi bod yn bwynt cychwyn da, ond rydym yn edrych ymlaen at ddadansoddiad dyfnach unwaith y byddwn yn dechrau defnyddio'r Arolwg PASS. Yn y pen draw, rydym yn deall pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol ac nid ydym yn credu ei fod yn ychwanegol at y cwricwlwm, ond yn hytrach, ei fod yn rhan annatod ohono. Mae'n rhaid i hyn fod yn amlwg yn natganiad cenhadaeth yr ysgol ac yn ethos cyfan yr ysgol i sicrhau ei barhad. Mae ein hymrwymiad i'r rhaglen hon wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu ein hysgol.

Mae'r cyfle i ddatblygu partneriaethau gwaith effeithiol yn ein clwstwr, gyda chlystyrau eraill yn y consortiwm a chydag asiantaethau allanol wedi bod yn brofiad gwerthfawr a buddiol i bawb.

Cysylltiadau â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae gan y prosiect ymchwil weithredu hwn gysylltiadau cryf â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion wedi'i ddylunio i ddod ag arferion da presennol sy'n cael eu cynnal at ei gilydd. Hefyd, fe fydd yn sicrhau bod ein holl bolisïau yn y dyfodol yn gydgysylltiedig. Amlygodd ein prosiect y cysylltiadau a ganlyn gyda'r FfEY:

- Arweinyddiaeth Wasgaredig
- Gweithio gydag eraill
- Datblygu Cymuned Dysgu Proffesiynol
- Gwelliant ac atebolrwydd
- Cwricwlwm ac Addysgu
- Ymyrraeth a chymorth

4. Ysgol Gynradd Pantysgallog

Adroddiad terfynol

Mae Ysgol Gynradd Pantysgallog yn gwasanaethu ar ardal y gellir ei dosbarthu'n un dan anfantais cyffredinol gyda thua 25% o'r trigolion yn gymharol llewyrchus a 75% dan anfatias economaidd. Pan gynahliwyd y prosiect hwn, roedd 231 o ddisgyblion ar y gofrestr o'r Meithrin i Flwyddyn 6. Ar hyn o bryd, mae yna bedwar o blant o leiafrifoedd ethnig. Mae'r plant a dderbynnir bob blwyddyn yn cwmpasu'r ystod gallu llawn ac mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau gallu isel mewn iaith. Mae tua 26% o'r disgyblion yn cael prydiau ysgol am ddim. Mae yna 71 o ddisgyblion ar y gofrestr ADY (30%), sy'n cynnwys 60 ar Weithredu gan yr Ysgol a 10 ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae gan un disgybl Nodyn yn lle Datganiad.

Cynaliadwyedd o fewn y rhaglen RHAGORI

Cyn cychwyn ar gyfnod newydd RHAGORI , roedd yn bwysig edrych yn ôl ar fentrau RHAGORI blaenorol yn yr ysgol a sicrhau cynaliadwyedd o fewn y rhaglen. O'r blaen, roedd yr ysgol wedi defnyddio'r arian RHAGORI i ganolbwyntio ar fentrau llythrennedd trwy'r rhaglen Dal i Fyny. Felly, penderfynwyd ymestyn paramedrau'r prosiect a symud i mewn i faes gwella Llythrennedd Emosiynol disgyblion.

Disgrifiad o'r Gweithgareddau a Gynhaliwyd

Ar gychwyn cyntaf y prosiect, penderfynwyd defnyddio cohort o ddisgyblion o'r ddau Gyfnod Allweddol. Roedd dosbarth Derbyn 2009/2010 yn un bach, felly penderfynwyd defnyddio'r dosbarth cyfan, ond cafodd Blwyddyn 6 ei brofi trwy ddefnyddio Offeryn Asesu SEAL a dewisiwyd disgyblion a chanddynt Sgôr Llythrennedd Emosiynol o 66 nei lai i dreialu'r deunyddiau SEAL.

Ar ôl dewis y cohortau treialu, lluniwyd cynllun drafft o weithgareddau i gwmpasu Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf 2010:

Cynllun Gweithredu Prosiect S.E.A.L.

Gweithred	Cynhaliwyd gan	Dyddiadau	Cwblhawyd
1. Asesu disgyblion yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 gan ddefnyddio Llythrennedd Emosiynol; CD Asesu ac Ymyrryd	Mrs Brill/ Mr Thomas	Chwefror 2010	✓
2. Dadansoddi'r data o'r offeryn asesu a dewis grwpiau targed o'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6	Mrs Brill Mr Thomas Mrs Priday	Chwefror 2010	✓
3. Dechrau defnyddio'r Deunyddiau SEAL ar ôl hanner tymor mis Chwefror: • Gwasanaeth yn defnyddio deunyddiau SEAL i'w ddarparu bob dydd Llun • Un sesiwn wythnosol i'w darparu gan Mrs Priday a Mr Thomas i'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 yn ôl eu trefn	Mrs Brill Mr Thomas Mrs Priday	2il hanner tymor Gwanwyn a pharhaus	✓
4. Defnyddio'r deunyddiau SEAL gyda'r plant a ddetholwyd hyd hanner tymor yr Haf	Mrs Brill Mr Thomas Mrs Priday	2il hanner tymor Gwanwyn a pharhaus	✓
5. Ailasesu'r holl ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn ac ym Mlwyddyn 6	Mrs Brill Mr Thomas	Mai 2010	✓

Penderfynwyd canolbwyntio ar y Themâu 'Mynd am Oliau' a 'Da yw bod yn Fi'. Roedd y deunyddiau R-Time i'w defnyddio gyda'r ddau grŵp. Nod y deunyddiau hyn yw archwilio i themâu SEAL gydag amrywiaeth o weithgareddau plant-gyfeillgar, gan alluogi i ddisgyblion ddatblygu'r eirfa angenrheidiol i wella eu llythrennedd emosiynol. Cafodd sesiwn wythnosol ei chynnwys yn yr amserlen ar gyfer y ddau grŵp a oedd yn ychwanegol i'r cwricwlwm ABCh a defnyddiwyd un gwasnaeth yr wythnos i gyflwyno'r themâu yr oedd disgyblion yn eu cwmpasu.

Hefyd, rhagwelwyd y byddem yn cynnal SEAL Teulu, gyda rhieni'r grwpiau targed yn cael eu gwahodd i'r ysgol i edrych ar Becynnau Rhieni SEAL. Roedd hyn i gael ei hwyluso gan Ymarferwyr Llythrennedd Teuluoedd.

Amcanion

Prif amcan y prosiect fel y cafodd ei amlinellu yn y cais cychwynnol am arian RHAGORI oedd:

Lleihau rhwystrau at ddysgu trwy fentrau deallusrwydd emosiynol a hunan-fri

Fel ysgol, rydym yn bwriadu defnyddio grwpiau peilot i roi cynnig ar y deunyddiau cyn creu rhaglen gynaliadwy i ddatblygu deallusrwydd emosiynol disgyblion trwy roi'r deunyddiau SEAL ar waith fesul cam yn yr ysgol gyfan o fis Medi 2010.

Gan fod ymchwil wedi dangos y gall hunan-fri a hunanymwybyddiaeth fod yn ffactorau allweddol yng nghyflawniad disgyblion, teimlwyd pe baem yn gallu nodi disgyblion a chanddynt hunan-fri gwael trwy ddefnyddio'r Offeryn Asesu SEAL, gallem ddefnyddio'r deunyddiau SEAL i wella'u hunan-fri ac, o ganlyniad, gwella eu cyrhaeddiad. O'r cychwyn cyntaf, fodd bynnag, fe wnaethom deall y gallai'r canlyniadau fod yn anodd eu mesur ac y byddai'r amcan yn un hir-dymor.

Dyma ddwy enghraifft o sesiynau SEAL a'u canlynaidau a gynhaliwyd yn Nhymor y Gwanwyn 2010.

Gyda'r dosbarth Derbyn, y thema oedd 'Da bod yn Fi' a dyluniwyd y gweithgaredd i wella hunan-fri a chynhwysiant. Dechreuodd y sesiwn gyda disgyblion yn edrych ar eu hadlewyrchiad mewn llwy ac yna'n gweithio mewn parau i ddewis un o rinweddau positif eu partner. Rhoddwyd cymal dechrau i'r disgyblion: ' Rydw i'n meddwl dy fod di'n neis oherwydd.....'

Fel gweithgaredd llawn, gofynnwyd disgyblion wedyn i dynnu llun ohonynt eu hunain o'u hadlewyrchiad ar lwy.

Amlygodd y sesiwn hon yr angen i ddatblygu geirfa addas i wneud yr adnodd SEAL yn un llwyddiannus. Cafodd y disgyblion hi'n eithaf anodd mynegi eu hunain trwy ddefnyddio'r cymal a roddwyd ac yn gyffredinol, roedd eu hatebion yn cynnwys un gair. Roeddynt yn deall y cysyniad, ond nid oedd gan rai iaith ddigon ddatblygedig i fynegi eu hymateb.

Gyda Blwyddyn 6, y sesiwn fwyaf bositif oedd un lle trafodwyd perthnasoedd. Y thema SEAL oedd Perthnasoedd a'r amcanion oedd ymdrin â cholled a phrofedigaeth yn ogystal â llunio perthnasoedd. Rhoddwyd cyfres o senarios y gallent eu hwynebu i'r disgyblion e.e. colli nain neu daid, peidio â chael eu dewis ar gyfer tîm ysgol, colli anifail anwes, ysgariad. Roedd rhaid i'r plant roi'r rhain yn eu trefn mewn perthynas â pha mor ddrwg y byddent yn teimlo pe bai'r pethau hyn yn digwydd iddynt. Fe'u hanogwyd i ddeall y byddent i gyd yn rhoi gwahanol drefn ar y pethau yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol eu hunain.

Bu iddynt i gyd cytuno mai marwolaeth perthynas agos a fyddai'n cael yr effaith fwyaf, ond cafodd y categorïau eraill eu rhoi mewn gwahanol drefnau. Bu ystod o ymatebion yn unol â phrofiadau bywyd y disgyblion eu hunain, ac roedd yna ymdeimlad amlwg o ymddiriedaeth rhwng aelodau'r grŵp a'r athro a oedd yn cyflwyno'r sesiwn.

Amlygodd werthusiad yr athro o'r sesiynau gyda Blwyddyn 6 bod y disgyblion yn agor i fyny i'w gilydd ac yn rhoi atebion mwy gonest y lleiaf yr oedd yr athro'n cymryd rhan yn y trafodaethau.

Canlyniadau

- Dealltwriaeth gliriach o'r deunyddiau SEAL, sut y maent yn cyd-fynd â'i gilydd fel adnodd ysgol gyfan
- Yr angen i ddatblygu geirfa disgyblion mewn perthynas â'r materion a gwmpesir gan y pynciau SEAL
- Yr angen i ddefnyddio offeryn asesu ychwanegol ar gyfer asesu plant i gael gwaelodlin gan fod offeryn asesu SEAL wedi peri anawsterau i'r disgyblion iau a'r rheiny a chanddynt anawsterau llythrennedd. Nawr, mae'r ysgol wedi prynu'r arolwg PASS i hwyluso hyn.

Allbwn

- Nawr, mae'r ysgol yn defnyddio PASS yn offeryn asesu ar gyfer SEAL
- Erbyn hyn, mae'r deunyddiau SEAL wedi'u tryfalu i'r Cynllun Gwaith ABCh ac mae'r holl athrawon yn rhoi'r rhaglen ar waith fesul cam ym mhob grŵp blwyddyn.
- Cynhyrchu adroddiad gwerthuso ar y prosiect cydweithredol.
- Dealltwriaeth bod menbwn a dealltwriaeth rhieni o'r deunyddiau SEAL yn gydran hanfodol o'i lwyddiant

Disgrifiad o Brosesau Monitro a Gwerthuso

Cafodd pob disgybl yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 eu profi ar ddechrau'r prosiect yn y Gwanwyn 2010. Yr offeryn asesu a ddefnyddiwyd oedd Llythrennedd Emosiynol SEAL; CD Asesu ac Ymyrryd. Defnyddiwyd hwn gyda llwyddiant cymysg gyda'r ddau grŵp . Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn rhy anodd ei deall i ddisgyblion y dosbarth Derbyn, ond ymdopodd Blwyddyn 6 yn dda gyda'r offeryn asesu. Penderfynwyd rhoi'r gorau i'r offeryn asesu gyda'r dosbarth Derbyn a defnyddio sgorau gwaelodlin ar gyfer Llythrennedd Personol a Chymdeithasol a Llythrennedd Iaith a Chyfathrebu

Cafodd Blwyddyn 6 ei brofi ac mae'r taenlenni isod yn gofnod o'u sgorau Llythrennedd

Emosiynol ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect:

Rhyw	Dyddiad geni	Grŵp blwyddyn	Dosbarth	Ethnigrwydd	Sgôr cyflawn
Benyw	20/11/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	59
Benyw	13/10/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	66
Benyw	30/08/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	62
Gwryw	13/11/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	59
Gwryw	09/02/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	70
Benyw	04/06/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	74
Gwryw	20/05/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	76
Gwryw	27/12/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	66

Rhyw	Dyddiad geni	Grŵp blwyddyn	Dosbarth	Ethnigrwydd	Sgôr cyflawn
Benyw	20/11/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	50
Benyw	13/10/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	70
Benyw	30/08/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	65
Gwryw	13/11/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	68
Gwryw	09/02/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	74
Benyw	04/06/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	86
Gwryw	20/05/1999	6	9	Gwyn Prydeinig	88
Gwryw	27/12/1998	6	9	Gwyn Prydeinig	74

Hwn oedd yr unig ddata meintiol y llwyddasom ei gasglu ar gyfer Blwyddyn 6, gyda 87.5% o'r disgyblion yn cyflawni gwelliant yn eu sgôr llythrennedd emosiynol. Fodd bynnag, bu i ni ddarganfod peth data ansoddol diddorol mewn perthynas â dau ddisgybl yn y grŵp.

Disgybl 1

Rhoddwyd un disgybl o flwyddyn 6 nad oedd yn bodloni'r maen prawf o sgôr is na 66 ar y prosiect oherwydd bod ei rhieni'n pryderu ei bod yn agored i niwed ar ddechrau Tymor y Gwanwyn. Ymhlith ei hymddygiad nodweddiadol oedd ynysu hi ei hun oddi wrth ei chymheiriaid, gwneud dim cyswllt llygaid gydag oedolion yn yr ysgol, cerdded o gwmpas y buarth chwarae gyda'i chot a'i chwfl wedi'u cau'n dynn a gyda'i phen i lawr yn barhaol.

Dechreuodd ar y prosiect ac erbyn diwedd Tymor yr Haf roedd yn ddigon hyderus i berfformio yng Ngwasanaeth y plant a oedd yn gadael fel unawdydd. Wrth werthuso'r cynnydd hwn, mae staff yn teimlo mai un o gydrannau hanfodol y llwyddiant hwn oedd cyfranogiad y rhieni.

Disgybl 2

Roedd yr ail ddisgybl yn dod o fewn meini prawf y prosiect, ond yn allanol, roedd yn ymddangos bod gan y disgybl lefelau hunan-fri da. Fodd bynnag, yn ystod Tymor y Gwanwyn, cafodd ffactorau y tu allan i'r ysgol effaith negyddol ar y disgybl. Gwrthododd y rhieni gydnabod bod yna broblem, a gwnaed ychydig iawn o gynnydd yn nhermau gwelliant yn y sgôr llythrennedd emosiynol pan ail-brofwyd y disgybl ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Mae hyn wedi peri i ni gredu y bydd yn hanfodol bod rhieni'n gwbl ymwybodol ac yn rhan o'r rhaglen SEAL pan gaiff ei roi ar waith fesul cam yn yr ysgol gyfan.

At ddibenion y prosiect, bu i ni ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnoddau R-Time, a theimlasom bod y rhain wedi'u dylunio a'u gosod allan yn dda ym mhum categori'r prosiect SEAL. Mae'n rhaid addasu'r eirfa at anghenion dosbarthiadau unigol, ond mae'r pecynnau darlun wedi bod yn effeithiol iawn wrth gyflwyno sesiynau SEAL.

Mae'r adnoddau Grŵp Blwyddyn unigol yn galw am fwy o waith paratoi na'r rhai R-Time, ond maent wedi'u gosod allan yn glir i mewn i bob categori. Yn debyg, mae'r Pecyn Rhieni'n adnodd ardderchog i'w ddefnyddio gyda rhieni.

Yn yr ardal hon, bu i ni ddarganfod nad oeddem yn gallu cynnal Grŵp Rhieni ac mae hwn bellach yn faes clir i'w ddatblygu at y dyfodol, o wybod yr effaith a gafodd ymgysylltiad rhieni ar y ddau ddisgybl a amlinellwyd uchod.

Un o elfenau manteisiol allweddol y prosiect i ni oedd y cysylltiadau y gellid eu gwneud gyda'r Fframwaith EffeithiolrwyddYsgolion. Hanfod y fframwaith yw 'Gwella Dysgu a Lles Plant a Phobl Ifanc', elfen sy'n cyd-fynd yn union â deunyddiau SEAL. Galluogodd y prosiect i'r agweddau a ganlyn o'r FfEY gael eu harchwilio:

- Arweinyddiaeth Wasgaredig: roedd aelodau'r staff yn gallu cynllunio a rhoi'r ymchwil weithredu ar waith
- Gweithio gydag Eraill: mae symud y tu allan i'r cylch uniongyrchol o gydweithwyr a gweithio gyda chlwstwr wedi ein galluogi i rannu arferion da a sefydlu Cymuned Dysgu Proffesiynol (PLC)
- Rhwydweithiau o Ymarfer Proffesiynol: nid yn unig y mae hyn wedi cwmpasu gweithwyr proffesiynol eraill yn yr ysgol, ond hefyd cydweithwyr o iechyd a llythrenned teuluoedd
- Ymyrraeth a Chymorth: caniataodd yr offeryn asesu i ni dargedu disgyblion priodol ar gyfer ymyrraeth a chymorth
- Gwelliant ac Atebolrwydd: bu'r data asesu'n waelodlin defnyddiol ar gyfer mesur gwelliant. Bydd hyn yn cael ei wella ymhellach trwy defnyddio'r arolwg PASS o fis Medi 2010.
- Cwricwlwm ac Addysgu: mae llwyddiant y prosiect peilot wedi arwain at newidiadu i'r cwricwlwm ABCh a, thrwy'r arolwg PASS, fe fydd yn ein caniatau i addasu ein dulliau addysgu a chynnwys y cwricwlwm i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion.

5. Ysgol Fabanod Goetre

Cyd-destun yr Ysgol

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf ac fe'i disgrifir yn un a chanddi lefelau uchel o amddifadedd sosio-economaidd. Mae cyfran uchel o blant yn cychwyn eu haddysg ffurfiol gydag oedi mewn iaith sylweddol. Ar hyn o bryd, canran y plant sy'n cael prydiau ysgol am ddim yw 62% ac mae tua 72% o blant ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o dan wahanol gategoriau'r Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig. Mae staff ein hysgol yn cydnabod trwy hyrwyddo iechyd emosiynol positif a lles, y bydd disgyblion yn dechrau deall a mynegi eu teimladau'n well, yn magu hyder a gwydnwch emosiynol ac felly eu gallu i ddysgu.

Disgrifiad o Weithgareddau

Mae'r Adnodd SEAL yn helaeth ac er mwyn bod yn wirioneddol llwyddiannus, mae mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan yn hollbwysig os yw am lwyddo.

Mae'n adnodd strwythuredig a chanddo themâu sy'n gwneud sgiliau allweddol yn eglur ac yn hygyrch i bawb.

Cwblhaodd y staff ymarfer mapio ysgol gyfan a oedd yn cysylltu themâu SEAL â rhaglen ABGI Cyfnod Sylfaen yr ysgol a'r Addysg a arweinir gan Werthoedd.

Cynhyrchodd hyn ystod o themâu i'r staff eu defnyddio bob tymor ac yna defnyddiodd y staff y themâu i gynllunio gweithgareddau wythnosol.

Mewn dosbarthiadau prif ffrwd, penderfynodd staff ganolbwyntio ar themâu Mynd am Oliau, Dechreuadau Newydd a Newidiadau.

Defnyddiodd staff yr ymagweddau addysgu a ganlyn i gyflawni'r effaith bwriedig; gwaith grŵp bach, trafodaethau amser cylch dosbarth cyfan, gweithgareddau ymarferol partneriaid siarad, a chyflwynwyd themâu trwy wasanaethau ysgol gyfan.

Cafodd y gweithgareddau eu gwahaniaethu yn ôl y grŵp dosbarth arbennig, wedi'u cymryd o'r deunydd SEAL.

Hefyd, mae staff wedi adeiladu cyfres o weithgareddau o amrywiaeth o adnoddau eraill. Mae arddangosfa Gwerthoedd wedi'i chodi yn neuadd yr ysgol a dangosir Gwerth y mis yno, a chaiff pob cyfle ei greu i drafod y gwerth gyda'r plant mewn dosbarthiadau unigol ac mewn Gwasanaethau.

At hyn, mae staff wedi ymchwilio i straeon sy'n cysylltu'n benodol â'r themâu ac sy'n oed-briodol.

Uned Sylfaen Adnodd Dysgu Astudiaeth Achos

Yn ystod Tymor yr Haf 2010 cafodd y Gweithgareddau SEAL eu treialu yn yr Uned Sylfaen Adnodd Dysgu lle mae'r plant rhwng 3-6 oed.

Thema'r tymor oedd "Newidiadau". Roedd y dosbarth wedi treulio llawer iawn o amser ac wedi gweithio trwy Tymor y Gwanwyn yn tyfu hadau, blodau a llysiau ac felly roedd y gair "Newid" wedi'i ddefnyddio'n helaeth. Dechreuodd y dosbarth gyda sesiwn ar "newid ein hwynebau" - hapus, trist. Edrychasant ar wynebau ei gilydd a defnyddiasant y cardiau gweledol System Cyfathrebu Picture Exchange (PEC) i atgyfnerthu'r newidiadau.

Roedd hwn yn weithgaredd da ar gyfer un plentyn arbennig a oedd yn aml yn dangos gwahanol emosiynau a thymherau.

Roedd sesiwn arall yn cynnwys newid dŵr yn ddiod ffrwythau gan ddefnyddio'r ddiod ffrwythau Ribena. Defnyddiodd y plant sgiliau arsylwi, sgiliau meddwl a sgiliau holi.

Trwy gydol pob sesiwn amser cylch, cafodd y plant eu hatgoffa i ddiolch i'w partner ac i'r dosbarth cyfan am wrando.

Astudiaeth Achos- BID

Gyda'r Dosbarth Derbyn, cafodd y thema ei seilio ar wella cymhelliant, ymddygiad, hunanymwybyddiaeth a hunan-fri.

Gweithiodd y plant mewn parau ar hap; mae gan bob plentyn ffotograff o weithgaredd y maent wedi'i gwblhau'r wythnos honno. Defnyddir cyfnod o ddau funud ac yn y cyfnod hwnnw mae'r plant, yn eu parau, yn siarad gyda'u partneriaid am eu darn o waith, beth sy'n dda amdano, sut y bu iddynt ei gwblhau a sut y gellid ei wella. Ar ôl gorffen trafod, mae'r plant yn canu "What a star". Yna, mae'r plant yn cymryd eu tro i siarad gyda'r grŵp cyfan am y gweithgaredd y bu iddynt ei gwblhau.

Trwy gydol y gweithgaredd, roedd y pwyslais ar blant yn gwneud eu gorau a bod yn fodlon cymryd risgiau, os nad ydych yn llwyddo, daliwch ati.

Gweithgaredd arall oedd defnyddio'r dis teimladau i ddatblygu geirfa emosiynol disgyblion. Cofnodwyd canlyniadau eu sylwadau ar graff trwy ddefnyddio'r Rhaglen 2 Simple. Helpodd y gweithgaredd hwn i ddatblygu hyder disgyblion wrth fynegi eu teimladau ac i roi rheswm am eu hemosiynau.

Astudiaeth Achos-Blwyddyn 2

Ffocysodd Blwyddyn 1 a 2 ar "Mynd am Oliau". Yn y thema hon, mae'r plant yn dechrau archwilio i ddysgu effeithiol ac i sut y gallant ddylanwadu ar eu llwyddiant. Mae'r gweithgareddau'n annog myfyrdod ar sut y mae'n well ganddynt ddysgu - trwy weld, clywed a gwneud- ac i helpu iddynt sylweddoli bod gwahanol dasgau dysgu'n galw am wahanol ffyrdd o ddysgu.

Cardiau ffotograff o'r ffeil adnodd ysgol gyfan (er enghraifft, "penderfynol") i ddangos ystyr y gair "gôl".

Cyflawnodd y plant y deilliannau dysgu bwriedig ar ddiwedd cyfres o weithgareddau, sef:

- Gosod gôl
- Torri gôl yn gamau bach
- Dewis gôl realistig.

Y Prosiect

Cymerodd staff ran mewn sesiynau hyfforddi gan ddarparwyr allanol a HMS mewnol.

Sefydlwyd rhaglen SEAL Teulu gyda'r Tîm Rhaglenni i Deuluoedd. Defnyddiodd y tîm Becynnau Rhieni SEAL.

Amcanion

Prif amcanion ein hysgol am fod yn rhan o'r prosiect hwn oedd datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant.

Datblygu ymagwedd gyson oddi wrth staff at gyfathrebu gyda disgyblion mewn ffordd sy'n ystyried eu hamgylchiadau bywyd ac yn hyrwyddo amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu.

Datblygu amgylchedd dysgu sy'n cefnogi iechyd emosiynol a lles ar gyfer cymuned gyfan yr ysgol.

Sicrhau cysondeb ar draws darpariaeth yr ysgol gyfan ar gyfer ABGI gan sicrhau cynnydd a datblygiad sgiliau.

Codi ymwybyddiaeth staff o'r ffaith bod SEAL yn darparu cwricwlwm a addysgir ond bod rhaid i'r amgylchedd a'r cyflyrau ar gyfer dysgu roi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu cefnogi yn y dysgu hwn am y byd o'u cwmpas.

Canlyniadau

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y deunyddiau cwricwlwm yn hawdd eu defnyddio a'u bod yn cysylltu'n rhwydd â rhaglen ABGI yr ysgol.

Awgrymodd staff bod y gwaith grŵp bach wedi cael effaith bositif ar sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion.

Mae angen mewnosod gwerthuso mwy ffurfiol sy'n cynnwys mesurau canlyniadau yn yr ymarfer.

Mae angen i ddisgyblion ddatblygu geirfa briodol, ac mae angen adeiladu hon yn gyson.

Mae gan y staff dystiolaeth ansoddol yn hytrach na data meintiol ar y cyfnod hwn o daith SEAL yr ysgol.

Mae'r prosiect wedi codi disgwyliadau staff ac wedi'u cefnogi i ddatblygu'r defnydd o SEAL.

Dyfyniadau oddi wrth staff

"Mae gan y Deunydd SEAL lawer o syniadau defnyddiol, llawer i feddwl amdano ac i roi cynnig arno gyda'n plant"

"Roedd y sesiwn hyfforddi'n addysgiadol iawn ac fe'm gwnaeth yn benderfynol i fod yn rhan o'r rhaglen ysgol gyfan"

"Bu gweithio gydag eraill a chynllunio'r rhaglen ysgol gyfan yn ddefnyddiol"

"Mae gwaith clwstwr y prosiect hwn wedi datblygu f'arbenigedd proffesiynol"

Dyfyniadau oddi wrth blant

"Rydw i'n hoffi amser cylch, mae'n fy helpu i rannu problem"

"Rydw i'n hoffi gwaith partner a rhannu fy syniadau gyda ffrind"

Allbwn

Trosolwg o SEAL a'i gyswllt â'r rhaglen ABGI Cyfnod Sylfaen.

Y ffordd y gall SEAL gefnogi a datblygu'r rhaglen Ysgolion Iach.

Mae cynnwys rhieni ac asiantaethau eraill yn angenrheidiol i wella'r rhaglen.

Mae bwriadau dysgu clir i'w gweld mewn cynllunio athrawon.

Caiff Gweithgareddau SEAL eu cynnwys yn amserlen gweithgareddau'r wythnos.

Mae staff yn fwyfwy ymwybodol o sut y mae eu hanghenion emosiynol yn cael effaith ar eu gwaith yn ogystal ag ar y plant y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae'r prosiect wedi datblygu cysylltiadau trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 3.

Disgrifiad o Brosesau Monitro a Gwerthuso

Cafodd y gweithgareddau eu monitro a'u gwerthuso yn ystod cyfarfodydd cynllunio wythnosol gan bob aelod o staff.

Ni fu Offeryn Asesu ac Ymyrryd Llythrennedd Emosiynol SEAL yn llwyddiant gan fod yr eirfa'n rhy anodd i'r plant ei deall.

Defnyddiwyd yr Asesiad Gwaelodlin Awdurdod Lleol ym mis Medi 2009 i sefydlu lefel pob plentyn mewn Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd ac mewn Iaith, Llythrennedd, a Chyfathrebu ac ail-wnaethpwyd yr asesiad ym mis Gorffennaf 2010. Y sgôr uchaf yw 12 ar gyfer pob adran o'r waelodlin ac mae'r % isod yn dangos nifer y plant a gyrhaeddodd y sgôr honno pan gawsant eu hasesu'n wreiddiol ym mis Medi 2009 ac yna, nifer y plant a gyrhaeddodd y sgôr uchaf ym mis Gorffennaf 2010.

Mae'r diagramau isod yn dangos y gwerth a ychwanegwyd

Hydref 2009	Haf 2010
Personol a Chymdeithasol	Personol a Chymdeithasol
6%	62%
Llefaredd A	Llefaredd A
16%	47%
Llefaredd B	Llefaredd B
2%	31%

Gellir gweld tystiolaeth o sut y mae staff yn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r plant ifanc hyn yn y cynnydd sydd i'w weld yn y sgoriau gwerth ychwanegol uchod.

Hefyd, mae staff yn defnyddio Continwwm Personol a Chymdeithasol sy'n gorgyffwrdd â'r asesiadau SEAL a chaiff y rhain eu cofnodi bob tymor.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n monitro dogfennau cynllunio staff.

Mae Arsylwadau Ystafell Ddosbarth a Gwrando ar Ddysgwyr yn strategaethau eraill a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen.

Y Ffordd Ymlaen

Ymgorffori'r holl weithredoedd i'r Cynllun Gwella Ysgol

Sefydlu gwaelodlin ysgol gyfan gan ddefnyddio PASS. Bydd hyn yn cefnogi'r trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 1 i gyfnod Allweddol 3.

Ar ôl sefydlu gwaelodlin ac ymgorffori'r gweithredoedd i'r cynllun gwella ysgol, gellir monitro a datblygu cynnydd fel rhan o gylch rheolaidd hunan-adolygu'r ysgol.

Sicrhau bod yr ysgogiad yn cael ei gynnal trwy broses parhaus o adolygu a datblygu gyda chyfraddau amser dynodedig.

Mewnosod SEAL yn y cylch adolygu fel rhan annatod o fframwaith hunanwerthuso'r ysgol gan gydnabod y cyfraniad a wna SEAL i'r broses hon.

Sicrhau bod 7 thema SEAL yn cysylltu â "Gweithredu'r Hawliau" y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Cysylltiadau â Mentrau RHAGORI Blaenorol

Ffocysodd fentrau RHAGORI blaenorol yn yr ysgol ar wella sgiliau lleferydd ac iaith plant.

Gweithiodd staff ochr yn ochr â Therapydd Lleferydd ac Iaith ac fe'u hyfforddwyd i ddarparu sesiynau Lleferydd ac Iaith gyda grŵp dynodedig o blant.

Cafodd staff hyfforddiant ar ddatblygu geirfa/dealltwriaeth plant a defnyddio cysyniadau/strwythur brawddegau a sgiliau lleferydd.

Aseswyd bod gan % uchel o blant oedi iaith yn hytrach nag anawsterau lleferydd.

Creodd RHAGORI blaenorol dîm aml-broffesiynol i ddarparu ystod o ymyraethau rhagweithiol i wella cyfleoedd bywyd plant.

Cysylltiadau â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY)

Trwy gynnwys holl staff yr ysgol yn y prosiect hwn rydym wedi ffocysu'n glir iawn ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r prosiect hwn wedi cysylltu â gweledigaeth FfEY

- Cwricwlwm ac Addysgu – ymgysylltu ag addysgeg
- Rhwydweithiau o ymarfer proffesiynol – proffesiynoldeb ar y cyd
- Gweithio gydag eraill – cydgysylltiedig, cynhwysol
- Arweinyddiaeth – gweledigaethol a strategol, cydweithredol
- Gwelliant ac Atebolrwydd – prosesau tryloyw
- Ymyrraeth a chymorth – cynnar a strategol, gwahaniaethol

6. Ysgol Iau Goetre

Ymagwedd Ysgol Gyfan at SEAL - 2009-2010

Crynodeb byr o Goetre a'i Broblemau Cymdeithasol

Mae Ysgol Iau Goetre, a adeiladwyd yn y 1960au, wedi'i lleoli ar safle dyrchafedig a rennir gyda'r ysgol fabanod ar gyrion y Gurnos, ystâd dai fawr sy'n bennaf yn dai awdurdod lleol, mewn ardal dan anfantais economaidd a chymdeithasol i'r gogledd o ganol tref Merthyr Tudful. Mae'r ysgol mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r plant a dderbynnir yn cynnwys llawer o ddisgyblion llai abl a rhai disgyblion abl, nodwyd bod gan 73% o'r rhain Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gan 56% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Nod ein hysgol yw datblygu cymuned ofalgar lle mae pob plentyn ac oedolyn yn teimlo'i fod yn cael ei barchu ac yn cael gwrandawiad teg. Mae'r ysgol yn hybu diwylliant o ddysgu parhaus ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol trwy waith tîm, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau.

Gweithrediad	Gwnaethpwyd gan	Dyddiadau	Cyflawnwyd
1. Asesu pob disgybl trwy ddefnyddio Llythrennedd Emosiynol; Asesiad ac Ymyrraeth	DHT Athrawon dosbarth	Tachwedd 2009	✓
2. Dadansoddi data'r offeryn asesu a dewis grwpiau targed o Flwyddyn 5 a Blwyddyn 6	DHT Cydlynydd ABCh	Tachwedd 2009	✓
3. Dechrau defnyddio deunyddiau SEAL ar ôl hanner tymor mis Hydref	Athrawon Dosbarth	2il hanner tymor Yr Hydref ymlaen	Parhaus
4. Cyflwyno gwasanaeth sy'n defnyddio deunyddiau SEAL pob dydd Llun	HT DHT	2il hanner tymor Yr Hydref ymlaen	Parhaus
5. Un sesiwn wythnosol i'w chyflwyno gan athro CPA	J Anthony	2il hanner tymor Yr Hydref ymlaen	✓
6. Gwerthuso'r defnydd o ddeunyddiau SEAL gyda'r plant a ddetholwyd hyd fis Medi 2010	DHT PSE Coordinator Class Teachers	Medi 2010	✓
7. Ailasesu pob disgybl ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6		Medi 2010	✓

Penderfynasom asesu pob disgybl yn yr ysgol er mwyn nodi eu hanghenion. At ddibenion y prosiect, bu i ni ffocysu ar ddisgyblion blwyddyn 6. Yr asesiad a ddefnyddiwyd oedd Asesiad ac Ymyrraeth Llythrennedd Emosiynol 7 - 11 oed Gwasanaeth Seicoleg Southampton. Defnyddiasom yr asesiadau mewn nifer o ffyrdd:

A. Grwpio anghenion y disgyblion yn y cohort a nodi disgyblion a oedd yn is na'r cyfartaledd ac yn llawer yn is na'r cyfartaledd.

B. Cymharu cohortau o ddisgyblion - yn yr achos hwn, blwyddyn 5 a blwyddyn 6.

Dangosir canlyniadau'r asesiad hwn isod



Disgrifiad o Ymagweddau a Gweithgareddau

Ymagwedd Ysgol Gyfan at Ymddygiad Positif

Hefyd, manteisiodd yr ysgol ar y cyfle hwn i ailysgrifennu'r polisi ymddygiad i sicrhau bod disgyblion ag ystod o anghenion ymddygiadol yn deall yn glir y rheolau, y gwobrau a'r sancsiynau yr oedd yr ysgol yn eu mabwysiadu yn seiliedg ar y syniad 'Staying on Gold'. Caiff disgyblion eu gwobrwyo am wneud dewisiadau da. Credwyd mai'r thema 'Cymhelliant' oedd yr un fwyaf priodol oherwydd teimlwyd y mwyaf y mae disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu eu hunain a'u gallu i gydweithio, y mwyaf y byddai eu hunan-fri'n gwella'n naturiol. Wrth i ddisgyblion gael pleser o gyrhaeddiad personol, maent yn dod yn ddysgwyr llawn cymhelliant ac annibynnol yn gynhenid.

Gwasanaeth Ysgol Gyfan Cyflawni 'Staying on Gold'

Mae'r disgyblion yn cael gwasanaeth cyflawni 'Staying on Gold' bob dydd Gwener. Hwn yw uchafbwynt yr wythnos i'r system 'Staying on Gold' pan roddir tystysgrifau, sticeri ac ati i'r disgyblion am amrywiaeth o resymau. Mae'r disgyblion yn eistedd yn eu tai ac ychwanegir pwyntiau i gyfanswm y tŷ ac mae'r tîm a chanddo'r mwyaf o bwyntiau'n cael 15 munud ychwanegol o amser chwarae. Mae digwyddiadau o'r fath yn cymell disgyblion yn enfawr ac maent yn mwynhau'r gwobrau anghynhenid hyn. Mae'r disgyblion wedi dysgu cân sydd hefyd yn llawn cymhelliant ac maent yn ei fwynhau'n fawr oherwydd mai 'rap' ydyw.

Gwasanaethau Ysgol Gyfan

Mae gwasanaethau'n ymagwedd ysgol gyfan at gyflwyno'r thema. Hefyd, mae dosbarthiadau'n perfformio eu gwasanaethau eu hunain sy'n gysylltiedig â themâu. Mae yna wasanaeth terfynol i gloi'r thema.

Ymagwedd Ysgol Gyfan at Ddefnyddio SEAL

Mae'r adnodd SEAL yn ymagwedd ysgol gyfan at ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, rhaid wrth ymagwedd ysgol gyfan.

Mae'n adnodd strwythuredig a chanddo themâu, sy'n gwneud sgiliau'n eglur ac yn hygyrch i bawb.

Gan ddefnyddio'r adnoddau SEAL, bu i ni flaenoriaethu tair thema, sef, Dechreuadau Newydd, Mynd am Oliau a Newidiadau. At ddibenion y prosiect hwn, ac i sicrhau bod staff yn gwbl gyfarwydd â'r adnoddau, dim ond y tair thema hyn ac wythnos gwrth-fwlio yr ymgymerwyd â nhw trwy gydol y flwyddyn.

Cymhelliant yw'r sgil y penderfynasom ffocysu arno. Mae cymhelliant wedi'i gysylltu'n agos ag emosiwn. Mae'r themâu SEAL y bu i ni eu defnyddio yn datblygu cymhelliant trwy weithgareddau sy'n helpu meithrin cyflawniad goliau personol, academaidd a rhag-gymdeithasol. Yn arbennig, blaenoriaethu gwydnwch, lle mae disgyblion yn dod yn eu holau'n dalog ac yn ailafael yn y trywydd iawn. Hefyd, mae'n cynnwys gwydnwch emosiynol. Trwy annog ein disgyblion i weld gwahanol dasgau fel her yn hytrach na fel bygythiad, mae disgyblion yn dod yn fwy abl i ddatrys problemau, i weithio allan manteision ac anfanteision eu gweithredoedd a chael gwerthusiad realistig o'r canlyniadau tebygol. Yn y pen draw, y bydd disgyblion yn dyfalbarhau gyda thasg a pharhau i fod yn llawn cymhelliant.

Cynllunio

Mae'r Cydlynydd ABCh sydd newydd ei benodi wedi dechrau adolygu'r rhaglen ABCh cyfredol er mwyn ymgorffori'r themâu SEAL a'r Addysg a arweinir gan Werthoedd. Roedd hyn yn golygu ysgrifennu cynlluniau tymor canolig manwl ar gyfer blwyddyn 3/4 a blwyddyn 5/6 ar gyfer y themâu a darparu adnoddau perthnasol. Ymgymerwyd â gweithgareddau trwy Amser Cylch a gwersi yn y dosbarth.

Addysgu

Defnyddiodd staff yr ymgweddau a ganlyn i gyflawni'r effaith bwriedig; gwaith grŵp bach, trafodaethau amser cylch dosbarth cyfan, gweithgareddau ymarferol partneriaid siarad a chafodd themâu eu cyflwyno trwy wasanaethau ysgol gyfan.

Cafodd y gweithgareddau eu gwahaniaethu yn ôl y grŵp blwyddyn dan sylw o'r deunydd SEAL.

Sut y Defnyddiwyd yr Adnoddau

Yn y Sail Adnoddau Dysgu Blwyddyn 5/6, cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau a gymerwyd o'r thema 'Mynd am Oliau'. Dechreuodd y sesiynau gyda'r stori 'Y Pedwerydd Mab', rhoddwyd amser meddwl i'r disgyblion ystyried beth a ddigwyddodd yn y stori, pa fab y byddent wedi hoffi bod a pha fab a gafodd yr anrheg fwyaf defnyddiol oddi wrth yr ysbryd. Mewn grwpiau, penderfynodd y disgyblion ba sgiliau a ddefnyddiodd y pedwerydd mab i fod yn ddysgwr da.

Cafodd syniadau'r disgyblion eu harddangos a chyfeiriwyd atynt yn ystod dysgu ar draws y cwricwlwm. Cafodd y disgyblion e'n hawdd nodi ba sgiliau a rhinweddau sy'n gwneud dysgwr effeithiol. Yr her oedd rhoi'r sgiliau hynny ar waith.

Yn dilyn y gweithgaredd hwn, derbyniodd y disgyblion yr her, a chawsant eu cymell i baratoi at addysgu rhywbeth newydd i'w gilydd. Gwnaethasant gynllun o'r hyn yr oedd arnynt ei angen a sut y byddent yn ei addysgu.

Cafodd sgiliau newydd eu harddangos ac adolygodd y disgyblion ba mor effeithiol yr oeddynt fel athro ac fel dysgwr. Hefyd, yn unol â'r rôl athro, rhoddwyd y cyfle i'r disgyblion ddathlu eu cyrhaeddiad eu hunain a chyrhaeddiad eraill trwy baratoi tystysgrifau ar gyfer Gwasanaeth Cyrhaeddiad 'bach'.

Rhoddodd yr adnoddau SEAL gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a'u cymell i ddyfalbarhau wrth gyflawni goliau.

Astudiaethau Achos o Ddisgyblion y mae eu Llythrennedd Emosiynol wedi Cynyddu

Astudiaeth Achos 1

Mae un o ddisgyblion Blwyddyn 6 yr oedd ei Lythrennedd Emosiynol ymhell o dan y sgôr cyfartalog wrth ddefnyddio'r Asesiad Llythrennedd Emosiynol (ELA) yn enghraifft ardderchog o lwyddiant o ganlyniad i gyfuniad o ddefnyddio'r adnoddau SEAL gyda'n 'Strategaethau Ymddygiad Positif'. Mae'r disgybl yma'n cymryd moddion oherwydd ei fod yn dioddef ADHD ac mae ei ddiffyg hunan-fri, ei fyrbwylltra, ac yn aml, ei anallu aml i weithio gydag eraill wedi golygu nad oedd yn gallu cyrchu'r cwricwlwm yn llawn hyd onid oedd y dyfeisiau a'r strategaethau hyn wedi'u gweithredu.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwelliannau sylweddol lle'r oedd yn gallu gweithio gydag eraill a chydnabod yr effaith roedd ganddo ar eraill os nad oedd yn gweithio'n dda. Daeth y disgybl yn fwy hyderus a chafodd ei gymell i aros ar y trywydd iawn. Yn dilyn yr ymyrraeth hon, cafodd y disgybl ei ailasesu gan ddefnyddio'r ELA, ac fe aeth o fod ymhell o dan y sgôr cyfartalog i gael sgôr cyfartalog.

Dyfyniad gan y disgybl astudiaeth achos "Rydw i'n wirioneddol hoffi plesio fy athro ac mae'n gwneud i mi deimlo'n well."

Astudiaeth Achos 2

Unwaith eto, roedd yr ail ddisgybl yn bodloni'r maen prawf o fod yn is na'r cyfartalog gan ddangos hunan-fri isel. Nid oedd y disgybl yn gallu ymgysylltu ar lafar mewn unrhyw weithgaredd dosbarth a byddai'n encilio oddi wrth eraill, nid oedd yn gallu gwneud cyswllt llygaid na chyfathrebu â'r athro dosbarth nac unrhyw oedolyn arall. Ar y llaw arall, byddai'r disgybl hwn yn mynd yn fywiog iawn ac yn cymryd rhan mewn chwarae garw amser chwarae ac amser cinio a arweiniodd yn aml at frwydrau ymosodol. Rhoddodd y sesiynau SEAL gyfleoedd i'r disgybl fagu hyder a'i alluogi i 'agor i fyny' yn ystod amser cylch i drafod sut roedd yn teimlo. Trwy gyswllt adref-ysgol rheolaidd gwelwyd bod y disgybl wedi gallu dod yn fwy hyderus ac agored gydag aelodau'r teulu yn ogystal â'i gyfoedion. Eto, cafodd y disgybl hwn ei ailasesu gan ddefnyddio'r ELA ac fe wellodd ei sgôr o islaw cyfartalog i gyfartalog.

Dyfyniad gan y Disgybl Astudiaeth Achos "Rydw i'n teimlo fy mod yn gallu siarad gyda phobl yn well, a llwyddais i gymryd rhan yng ngwasanaeth y disgyblion oedd yn gadael."

Canlyniad y Prosiect – yr hyn rydym wedi'i ddysgu

Yn gyffredinol, teimlwyd bod y deunyddiau cwricwlwm yn hawdd eu defnyddio a'u bod yn cysylltu'n llwyddiannus â rhaglen ABGI yr ysgol.

Awgrymodd y staff bod y gwaith grŵp bach wedi cael effaith bositif ar sgiliau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Mae angen mewnosod gwerthusiad mwy ffurfiol sy'n cynnwys mesurau canlyniad yn ymarferol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gyda'r offeryn asesu PASS.

Mae angen i'r disgyblion ddatblygu geirfa briodol, ac mae angen adeiladu ar hon yn gyson.

Mae gan y staff dystiolaeth ansoddol yn hytrach na data meintiol ar y pwynt hwn yn siwrnai SEAL yr ysgol

Mae'r prosiect wedi codi disgwyliadau athrawon ac wedi cefnogi staff i ddatblygu'r defnydd o SEAL.

Ffordd Ymlaen

Ymgorffori pob gweithred yn y CGY

Sefydlu gwaelodlin ysgol gyfan gan ddefnyddio PASS. Bydd hyn yn cefnogi'r trosglwyddiad o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 3.

Ar ôl sefydlu gwaelodlin ac ymgorffori gweithredoedd yn y cynllun gwella ysgol, gellir monitro a datblygu cynnydd fel rhan o gylch rheolaidd hunan-adolygu'r ysgol.

Sicrhau bod yr ysgogiad yn cael ei gynnal trwy broses barhaus o adolygu a datblygu gyda chyfraddau amser dynodedig.

Mewnosod SEAL yn y cylch adolygu fel rhan annatod o fframwaith hunanwerthuso'r ysgol gan gydnabod y cyfraniad a wna SEAL i'r broses hon.

Sicrhau bod 7 thema SEAL yn cysylltu â "Gweithredu'r Hawliau" y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI).

Cysylltiadau â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY)

Trwy gynnwys holl staff yr ysgol yn y prosiect hwn, rydym wedi ffocysu'n glir iawn ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r prosiect hwn wedi cysylltu â gweledigaeth FfEY

- Cwricwlwm ac Addysgu – ymgysylltu ag addysgeg
- Rhwydweithiau ac ymarfer proffesiynol – proffesiynoldeb ar y cyd
- Gweithio gydag eraill - cydgysylltiedig, cynhwysol
- Arweinyddiaeth – gweledigaethol a strategol, cydweithio
- Gwelliant ac Atebolrwydd – prosesau tryloyw
- Ymyrraeth a chymorth – cynnar a strategol, wedi'i wahaniaethu

7. Ysgol Uwchradd Pen Yr Dre

‘Lleihau rhwystrau at ddysgu deallusrwydd emosiynol a mentrau hunan-fri’

“Gwella Lles Emosiynol”

Cefndir

Mae Ysgol Uwchradd Pen Y Dre yn ysgol gyfun rhyw gymysg 11-18 oed yn nhref Merthyr Tudful. Mae’r ysgol yn gwasanaethu ar ddalgylch sy’n cynnwys ystâd cyngor fawr yn bennaf a nifer o gymunedau traddodiadol cymoedd Cymru. Mae’r ysgol yn ymroi i godi cyrhaeddiad ei holl disgyblion.

Gweledigaeth yr ysgol yw un lle mae pob plentyn yn gwireddu ei botensial neu ei photensial. Er mwyn ein galluogi i gyflawni’r gôl hwn, mae’n bwysig y gallwn ni fel ysgol wella presenoldeb dysgwyr, datblygu eu hunan-fri a’u hannog i gael dyheadau uchel. Rydym am iddynt barchu eu hunain, parchu eu cyfoedion a pharchu’r gymuned y maent yn byw ynddi.

Gwireddu’r weledigaeth

Cyn cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn, roedd menter disgyblu positif wedi’i fabwysiadu’n barod yn yr ysgol. Fodd bynnag, bu’n nod gennym ddiweddaru ein polisi presennol trwy ddechrau ymagwedd ysgol gyfan at alluogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

Ymysg yr heriau roeddem yn eu hwynebu roedd:

- Ymatebion amhriodol gan fyfyrwyr unigol
- Diffyg ymwybyddiaeth mewn rhai myfyrwyr o sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar eraill
- Hunan-fri gwael sy’n arwain at anallu rhai myfyrwyr i dderbyn clod

Nodau ac Amcanion

Os oedd addysgu a dysgu i wella, roedd yn hanfodol datblygu cyfres newydd o werthoedd craidd. Roedd penderfyniad terfynol yn amodol ar werthoedd craidd parch, mentergarwch a pherfformiad. Mae’r cod ymddygiad newydd wedi’i seilio ar werthoedd parch at eich hunan ac eraill ac at amgylchedd yr ysgol.

Dangosir parch yn y ffyrdd a ganlyn:

- Bod yn ystyriol i eraill bob amser
- Defnyddio’r agwedd gywir at ddysgu a gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr adnoddau perthnasol gyda nhw ar gyfer pob gwers
- Bod yn hunanymwybodol ac yn ymwybodol o effeithiau eu gweithredoedd
- Bod yn brydlon i bob gwers

Caiff mentergarwch a pherfformiad eu dangos yn y ffyrdd a ganlyn:

- Datblygu potensial trwy weithio’n galed
- Datblygu sgiliau hanfodol sy’n tanategu pob cyflawniad: Cyfathrebu, Rhifedd, TGCh, Sgiliau Ymchwil, Gweithio gydag eraill, Datrys problemau, Rheoli Amser, Cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, Datblygu cysylltiadau cymunedol.

Felly, ein prif nod oedd gwerthuso’r effaith y byddai’r fenter yn ei gael ar grwpiau ffocws bach. Nod ychwanegol oedd edrych ar ymyraethau effeithiol i alluogi i’r ymarfer da hwn gael ei ledaenu.

Dylunio’r Ymchwil

Roedd ffocws yr astudiaeth ymchwil hon yn cynnwys ymyraethau grŵp bach i ddisgyblion oedd wedi’u pennu’n rhai a chanddynt ADY *(Anghenion Dysgu Ychwanegol)* yn yr ysgol (ton 2 rhaglen ymyrraeth SEAL). Dewiswyd myfyrwyr ar sail yr anawsterau hysbys oedd ganddynt mewn perthynas ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Yn dilyn gweithrediad y rhaglen, cynhaliwyd gwerthusiad ansoddol a meintiol bach gyda myfyrwyr a roddwyd naill ai mewn grŵp meithrin neu uned sail adnoddau dysgu. Roedd yr astudiaeth fach yn cynnwys 24 o blant. Edrychodd dulliau meintiol a ddefnyddiwyd gan yr athro sail adnoddau dysgu ar wella presenoldeb ac achosion o ymddygiad amhriodol. Roedd y data ansoddol yn ymwneud â holi’r myfyrwyr am strategaethau ac ymyraethau a ddefnyddiwyd. Hefyd, casglwyd data arsylwadol wrth weithredu’r strategaethau hyn.

Disgrifiad o Weithgareddau yr Ymgymerwyd â Nhw

Gweithredu’r cynllun

Mabwysiadodd yr ysgol y rhaglen SEAL *(Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol at Dysgu)* yn Nhymor y Gwanwyn 2010. Mae’n ymagwedd ysgol gyfan er mwyn ymestyn sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sydd yn ei dro’n hybu dysgu llwyddiannus ac yn gwella ymddygiad a phresenoldeb. Yn ôl Humphrey et al (Tachwedd 2008), *“SEAL is delivered in three waves”*. Yn nhon un penderfynodd uwch arweinwyr Ysgol Pen Y Dre y byddai’r thema SEAL yn cael ei darparu yn ystod gwers gofrestru estynedig ac un wers ABCh yr wythnos i flwyddyn 7. Dosbarthwyd llyfrau canllaw i’r staff a darparwyd trosolwg o’r thema a’r cynlluniau gwers i athrawon ei ddilyn. Daeth llyfr adnoddau gyda’r cynllun.

Gan ddefnyddio’r ymagwedd thematig hon, cyflwynodd y cefnogwr dysgu (Pennaeth Blwyddyn) ar gyfer blwyddyn 7 ei gwasanaethau, ac ar draws y cwricwlwm, cyfeiriodd yr athrawon dosbarth at yr amcanion unigol sy’n gysylltiedig â thema arbennig pan gododd sefyllfaoedd yn eu haddysgu dydd i ddydd.

Yn ystod Tymor yr Haf, prynodd yr AALI (Awdurdod Addysg Lleol) offeryn archwilio ar-lein i asesu deallusrwydd cymdeithasol ac emosiynol (PASS).

O fewn y gyfadran cymorth dysgu, bu i ni benderfynu edrych ar grwpiau ffocws unigol sy’n cael ei gyfrif yn don dau o fewn cynllun SEAL. Roedd y grwpiau ffocws a ddewiswyd yn grŵp o fyfyrwyr blwyddyn 7 oedd mewn dosbarth seiliedig ar ddysgu, a’r grŵp meithrin blwyddyn 7.

Grŵp Ffocws Bach A: Meithrin, Blwyddyn 7

Sefydlwyd darpariaeth meithrin yr ysgol yn 2008 yn ymateb i’r nifer uchel o fyfyrwyr a chanddynt anawsterau oedd yn gysylltiedig ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Er nad yw’r uned yn un

AEY mae gennym fyfyrwyr nad ydynt yn gallu rheoli eu hemosiynau. Mae dicter yn emosiwn dynol naturiol ac mae llawer o'r myfyrwyr yn y grŵp meithrin yn defnyddio'r dicter hwn fel ffordd o ymdopi ag amgylchiadau y maent yn eu cael yn anodd. Roedd yn hanfodol ein bod yn addysgu'r sgiliau priodol i'r myfyrwyr allu rheoli eu hemosiynau eu hunain. Gan ddefnyddio'r thema emosiynau yn y rhaglen SEAL bu i ni siarad am sut y gallai'r myfyrwyr adnabod pryd roeddynt yn gwylltio. Trafododd y dosbarth yr arwyddion corfforol, beth yn union sy'n digwydd i'n cyrff pan fyddwn yn gwylltio a meddyliasant am sut y gallwn newid ein teimladau. Roeddem yn ymwybodol nad oedd yna un strategaeth unigol a fyddai'n gweithio gyda phob myfyriwr ar bob achlysur. Datblygwyd galluoedd trwy dasgau ac addysgu uniongyrchol.

Yn dilyn diwrnod HMS gan Tina Rae, fe'n hanogwyd i edrych ar ein hymatebion ein hunain yn ystod y diwrnod ysgol. Fel cyfadran, roeddem yn ymwybodol bod angen i ni ymateb i'r myfyrwyr mewn ffordd dawel a phriodol. Trwy gyfarfodydd HMS roeddem yn ymwybodol nad oedd hyn yn digwydd bob tro ar waith, ond roeddem yn gwybod ei fod yn hollbwysig ein bod yn cael ein hystyried yn esiampl i'r myfyrwyr. Arweinir pob dosbarth gan athro a chynorthwyydd cymorth. Rôl y ddau oedolyn yw gweithio mewn partneriaeth, gan arwain trwy esiampl. Mae'r dôn wrth gyfathrebu â'r disgyblion a gyda'i gilydd yn dawel, yn ysgafn ac yn ddi-adweithiol. Mae pob ymddygiad yn ffordd o gyfathrebu ac agwedd bwysig ar reoli'r grŵp yw adeiladu perthynas gyda phob disgybl a thrwy wneud hynny, gwella eu dealltwriaeth o'u hanghenion unigol, gan greu perthynas a chanddi ymddiriedaeth. Nod y broses feithrin yw datblygu'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn i'r disgyblion allu cyflawni'n weithredol yn y lleoliad prif ffrwd. Mae'n darparu sail ddiogel.

Bu i ni gymryd rhan mewn chwarae rhan gyda'r grŵp meithrin a thrafodasom ymatebion arferol a roddwyd i ystod o sefyllfaoedd yr oedd y myfyrwyr yn eu hystyried yn rhai heriol. I gychwyn, bu i ni drafod pa mor briodol oedd ymatebion y myfyrwyr. Er enghraifft *A ydoedd yn briodol gweiddi'n ymosodol ar yr athrawes dosbarth pan roedd hi wedi rhoi cyfarwyddyd i ddisgybl arbennig gwblhau gweithgaredd?* Trafododd y grŵp ffocws ystod o ymatebion amgen i wahanol sefyllfaoedd y byddent yn dod ar eu traws yn ystod y diwrnod ysgol. Trwy ymarfer yr ymatebion hyn mewn amgylchedd diogel nodwyd, gydag amser, bod ffrwydradau ymosodol y myfyrwyr yn lleihau. Defnyddiwyd ciwiau gweledol yn *aide-memoire* i annog ymatebion priodol.

Grŵp Ffocws SEAL (Ton 2) - Meithrin

Nawr, mae ethos yr ystafell ddosbarth Meithrin wedi'i adeiladu ar arweiniad oddi wrth SEAL a'r Rhwydwaith Grŵp Meithrin ac fe'i drefnir i ddatblygu anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac academaidd disgybl – mae gwahanol ardaloedd wedi'u sefydlu yn yr ystafell ddosbarth i nodi gwahanol ddisgwyliadau a sgiliau.

Rhan allweddol o'r drefn feunyddiol yw darparu gweithgaredd bwyta cymdeithasol, nad yw'n unig yn rhoi cynhaliaeth, ond sydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i rannu arferion a moesau cyffredin ac i hyrwyddo ac annog cyfathrebu cymdeithasol. At hyn, caiff lles y disgyblion ei feithrin trwy ddarparu detholiad o ffrwythau unwaith yr wythnos. Yn ystod y sesiynau hyn, addysgir arferion a moesau bwyta i'r disgyblion. Maent yn gyfrifol am baratoi eu bwyd eu hunain ac wedyn, maent yn gweithio gyda'i gilydd i olchi, sychu a chlirio popeth. Caiff gweddill y diwrnod ei rannu'n sesiynau addysgu sy'n cael eu gwahanu gan weithgareddau cymdeithasol strwythuredig. Defnyddir gweithgareddau ac adnoddau SEAL i dargedu pynciau penodol, fel adeiladu hunan-fri, perthnasoedd a theimladau. O'n profiad ni, mae rhai o'r adnoddau SEAL yn amleiriog iawn, felly defnyddiwyd adnoddau eraill i gefnogi'r themâu, er enghraifft, yr adnodd Talkabout gan Speechmark i helpu dal dychymyg ein dysgwyr cinesthetig. Mae disgyblion yn dilyn y pynciau cwricwlwm prif ffrwd sy'n cael eu haddasu fel eu bod yn gweddu cael eu cyflwyno i



grwpiau bach, gan gymryd anghenion unigol disgyblion i ystyriaeth. Defnyddir ystod o dechnegau addysgu i ddarparu gweithgareddau ymarferol, y mae'r disgyblion yn aml yn eu hystyried yn fath o chwarae. I gychwyn, ni chofnodir fawr ddim o'r gwaith; gan ddefnyddio peth tystiolaeth ffotograffig. Ond, wrth i'r disgyblion gael eu paratoi at gael eu hatgyfannu, mae'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn cael ei alinio â'r hyn a ddisgwylir gan ddosbarthiadau prif ffrwd.

Caiff pynciau arbenigol fel Addysg Gorfforol, Ffrangeg, Cymraeg, technoleg a chelf eu darparu gan athrawon mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Tynnir sylw athrawon at anghenion y disgyblion. Caiff disgyblion eu hatgyfannu pan fyddant yn cydymffurfio â rheolau cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth Meithrin a phan fyddant wedi magu'r hyder i'w galluogi i gyflawni mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Caiff disgyblion eu hatgyfannu'n raddol.

Cafodd gweithredu egwyddorion SEAL effaith positif mawr ar gynnydd disgyblion. O'r disgyblion a ymunodd â'r grŵp ffocws yn 2009/2020, mae 1 disgybl wedi atgyfannu'n llwyr i'r brif ffrwd ac mae pedwar disgybl arall yn cael eu hatygfannu i mewn i ystod o bynciau sy'n ymestyn o 40% i 70% o'u hamser.

Grŵp Ffocws Bach B: Sail Dysgu, Blwyddyn 7

Gan ddefnyddio cyfrwng Drama, gweithredwyd y rhaglen SEAL i grŵp o ddisgyblion ADC *(Anawsterau Dysgu Cymedrol)* yn yr adran ADY i wella eu hymwybyddiaeth gymdeithasol a'u hunanymwybyddiaeth, wrth eu helpu i ddeall goblygiadau bwlio ac ymddygiad trwy ddefnyddio chwarae rhan a dadansoddi emosiynau yn nhermau theatrig fel ystumiau'r wyneb, iaith y corff, osgo a meim.

Cafodd y plant eu cyflwyno i amcan y wers a gofynnwyd iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp/dosbarth cyfan i chwilio am syniadau ar y mater dan sylw (h.y. - ar gyfer gwers ar sut i drin pobl eraill, bu i ni edrych ar fwlio a'r mathau o fwlio sy'n bodoli a sut y mae hynny'n gwneud i bobl deimlo). Roedd y plant yn gallu defnyddio eu taflenni gwaith uned yn offeryn i helpu eu cymell a'u promptio yn eu cyfranogiad yn ogystal â chael rhai arsylwadau cyffredinol oddi wrth y tiwtor dosbarth, gan ddysgu am iaith y corff a thôn i farnu sut mae person yn teimlo.

Yna, byddai'r dosbarth yn cael ei rannu'n grwpiau neu'n barau, yn dibynnu ar natur y wers, a rhoddwyd amser penodol iddynt weithio ar deimlad neu emosiwn penodol, gan greu sefyllfa bywyd go-iawn lle gellir portreadu'r emosiwn yna trwy chwarae rhan neu feim. (e.e. - arweiniodd wers ar fod yn gyfrifol am eich gweithredoedd eich hunan i un grŵp berfformio sefyllfa lle'r oedd gwraig yn cael ei cham-drin am na fyddai'n amddiffyn ei hun, yna ail wnaethant y sefyllfa ond y tro hwn, gyda'r wraig yn amddiffyn ei hun, gan amlygu canlyniadau'r gwahaniaeth. Perfformiodd grŵp arall sefyllfa ddofn iawn lle'r oedd plentyn yn chwarae rhan ysbryd a oedd yn dweud sut roedd hi wedi cael ei thrin gan fwlis yn yr ysgol, a oedd wedi arwain at ei marwolaeth, a sut roedd y bobl oedd wedi bod yn ei bwlio wedi ymateb i'r canlyniad hwn.)

Byddai'r dosbarth yn dadansoddi pob perfformiad ac yn rhoi adborth nid yn unig ar yr actio, ond ar yr prif amcan sef yr emosiynau roeddynt wedi'u harsylwi, gan arsylwi'n feirniadol defnydd o iaith y corff yr actorion a'u defnydd o dôn i fynegi eu hemosiynau. I gloi'r wers, byddai'r plant yn cael amser i drafod sut maent yn teimlo am yr emosiwn arbennig hwnnw, mewn amgylchedd agored a diymhongar, gan ddadansoddi'r hyn sy'n digwydd i'w cyrff a'u meddyliau pan fyddant yn mynegi emosiwn neu deimlad/sefyllfa arbennig. Dysgasant yn gyflym nad beth rydych yn ei ddweud sy'n gwneud gwahaniaeth, ond y ffordd y byddwch yn ei ddweud.

Oherwydd natur y dosbarth, a'u hanghenion dysgu ychwanegol, penderfynwyd canolbwyntio ar ddatblygiad personol y dosbarth yn hytrach nag ar gyflawniad academaidd, gan fod tystiolaeth yn dangos bod plant a chanddynt anawsterau dysgu yn aml yn dioddef yn gymdeithasol ac yn emosiynol, ac yn

dangos hyn trwy eu hymddygiad - boed hynny trwy aflonyddu, encilio neu ymddwyn yn 'blentynnaidd' yn gynt na'u cyfoedion. Pwrpas gweithredu'r rhaglen SEAL gyda'r dysgwyr hyn oedd eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau allai fod ganddynt at fynychu ysgol newydd, ymdrin â materion fel ymddygiad ac ailadrodd i'r dosbarth pa mor bwysig yw polisi'r ysgol ar Ddisgyblaeth Positif a'r cynllun Pwyntiau at Lwyddo wrth sicrhau bod neges dim goddefgarwch Pen-Y-Dre at fwlio yn cael ei deall yn llawn gan bawb. Roeddem yn disgwyl gweld gwelliant cyffredinol yn niffygion emosiynol y plant i'r pwynt y byddent yn gallu gwrthsefyll yr awydd i alw enwau ar ei gilydd fel ffordd o frifo teimladau ei gilydd, a gwella'r ymddygiad plentynnaidd yn gyffredinol.

Yr hyn y bu i ni ei weld oedd, trwy ddefnyddio Drama fel offeryn, bod y plant yn gallu mynegi eu hunain yn rhydd, gan wella nid yn unig eu hyder ond hefyd eu perthynas gyda'i gilydd. Trwy gydol y cwrs, gwellodd eu lefelau hunan-fri a hunanwerth yn ddramatig, a daethant yn ffrindiau gyda'i gilydd. Roeddynt yn gallu adnabod sut roedd rhywun yn teimlo a gweithredu'n unol â hynny i geisio helpu ei gilydd - ac fe wellodd hyn oll eu hagosrwydd fel grŵp. Yn ei dro, lleihaodd hyn lefelau bwlio a oedd cynt wedi'i achosi gan y dosbarth, a chanlyniad hyn oedd bod y plant yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a gweithredoedd eraill. Roeddynt yn deall ei fod yn anghywir teimlo ffordd benodol, ond y gall eu hymddygiad drwg nhw godi o ganlyniad i gyfres o weithredoedd y maen nhw'n eu dilyn i ymdrin â'r emosiwn hwnnw - ac fe arweiniodd hyn oll at well dealltwriaeth o sut i ymdrin â'u hymddygiad, a mabwysiadu ymagwedd fwy aeddfed at eu hemosiynau.

Canlyniad annisgwyl o'r rhaglen oedd bod presenoldeb wedi gwella 45% yn ei hystod, a bod achlysuron o fwlio a adroddir sy'n arwain at droseddau a gosbir yn y grŵp wedi lleihau o leiaf 30% yn ystod y tymor ysgol. Canlyniad positif arall yw bod rhai o'n disgyblion wedi cael cynnig y cyfle i weithio mewn gwersi prif ffrwd lle maent yn rhagori oherwydd gwelliannau yn eu hymddygiad. Ar hyn o bryd, mae dau aelod o'n dosbarth yn mynychu mathemateg gyda'u cyfoedion prif ffrwd, ac mae 1 bachgen wedi atgyfannu'n llawn i addysg prif ffrwd o ganlyniad uniongyrchol i'r gwelliant yn ei ymddygiad, a nawr mae'n cael ei addysgu ochr yn ochr â'i gyfoedion.

Yn ôl Marilyn Sorenson PhD (2005) *'low self-esteem is frequently the root cause of many psychological, emotional, personal and relationship issues'*. Felly, roeddem yn teimlo ei fod yn angenrheidiol gwerthuso hunan-fri'r plant ar adegau penodol yn ystod y cynllun. Gan ddefnyddio'r llyfryn adnoddau yn sail i'n proses werthuso, bu i ni lenwi arolwg a ddatblygwyd gan Coopersmith (1987) gyda'r dosbarth ar gyfnodau perthnasol o'r rhaglen. Bu i ni ddarganfod bod gan 66% o'r dosbarth well hunan-fri o ganlyniad i'r gwersi SEAL, roedd dyheadau'r rhan fwyaf o'r grŵp yn uwch na'u hymatebion cychwynnol, ac roedd 83% o'r plant nawr yn gwneud ymdrech fwy ymwybodol i feddwl am deimladau pobl eraill gan eu bod nawr yn gwybod sut i ddarllen iaith y corff syml pobl a'u tôn a'u hystumiau – a addysgwyd trwy gydol y rhaglen.

Disgrifiad o'r Broses Monitro a Gwerthuso

O fewn cyd-destun yr astudiaeth grŵp ffocws fach hon, gellir gwneud y datganiadau a ganlyn:

- O safbwynt y myfyrwyr a'r athrawon ill dau, cafodd y fenter effaith bositif ar les cymdeithasol ac emosiynol y myfyrwyr a gymerodd ran. Dangosodd dau o fyfyrwyr ychydig iawn o welliant yn natblygiad eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mae angen rhaglen ymyrraeth un i un dwysach o lawer ar fyfyriwr A ac fe'i atgyfeirwyd i'r tîm iechyd meddwl sylfaenol. Mae gan ddisgybl B broblemau difrifol ac mae nawr wedi cael lle yn yr uned atgyfeirio disgyblion.
- Roedd anghenion unigol y myfyrwyr a ddewiswyd ar gyfer y rhaglen hon yn amrywio a chawsant eu dethol ar sail y ddarpariaeth bresennol a ddarperir ac ar eu presenoldeb naill ai mewn dosbarth Meithrin neu ddosbarth Sail Dysgu. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn ymddygiad a sgiliau cymdeithasol 92% o'r myfyrwyr a gymerodd ran. Cafodd hyn ei gydnabod yn y seiliau dysgu ac mewn dosbarthiadau prif ffrwd.
- Defnyddiodd pob aelod o staff a oedd yn rhan o'r rhaglen ddeunyddiau SEAL i ddatblygu strategaethau i wella deallusrwydd cymdeithasol ac emosiynol o fewn y dosbarthiadau uned. Arsylwyd bod yna berthynas dda rhwng y staff a'r myfyrwyr oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen hon.

Datblygiad Pellach

Mae'r rhaglen astudio hon yn ei babandod o hyd ac mae angen cyfnod hirach o amser arni i weld a all y strategaethau a ddefnyddir fod yn effeithiol dros amser. Dim ond bryd honno y byddwn yn gallu gwerthuso'r rhaglen yn effeithiol.

Fodd bynnag, dyma restr o argymhellion cychwynnol:

- Ffactor bwysig i'w datblygu yn y dyfodol yw sicrhau y rhoddir digon o amser i staff yr ysgol ddarparu'r rhaglen.
- Mae'n hanfodol bod y gwaith a wnaed yn y grwpiau ffocws bach yn parhau pan fydd disgyblion yn mynychu eu gwersi prif ffrwd.
- Dylid lledaenu'r rhaglen mewn amgylchedd cyfforddus a dymunol. Dylai pob gweithgaredd fod yn blentyn-ganolog.
- Dylid defnyddio proses atgyfeirio cadarnach (Ar hyn o bryd rydym yn asesu'r offeryn asesu PASS i fodloni'r maen prawf hwn).
- Dylai asesu pellach edrych ar sut effaith a gaiff gwaith y grŵp ffocws bach ar deuluoedd y myfyrwyr.

8. Ysgol Feithrin Gurnos

‘Gwella Lles Emosiynol’

Mae Ysgol Feithrin Gurnos wedi’i lleoli ar Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful. Y Pennaeth yw Mrs Judith Stevens MBE, mae yna bedwar o staff addysgu, sy’n cynnwys Mrs Stevens, a naw aelod o staff nad ydynt yn addysgu. Mae’r ysgol yn cynnwys tair ystafell sail, dosbarthiadau 1, 2 a 3. Yn unol â’r Cyfnod Sylfaen, mae yna gymhareb o 8 plentyn yr oedolyn, arweinir pob dosbarth gan un aelod o’r staff addysgu a dau aelod o staff nad ydynt yn addysgu.

Wrth ochr y prif Feithrin mae meithrinfa gyn-ysgol Dechrau’n Deg, ‘Seren Bach’, sy’n darparu ar gyfer plant dyflwydd a thri mis oed hyd oni fyddant yn mynd i ysgol feithrin. Mae gan yr ysgol feithrin ystafell synhwyraidd, lloches awyr agored a chanddi do ac Ysgol Fforest.

Nifer y plant ar y gofrestr: 94

Plant a chanddynt hawl i brydiau ysgol am ddim: 74.9%

Presenoldeb: 80.5%

Plant ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy: 4

Plant ag ADY: 5

Nifer y plant ag IPP: 9

Plant â Saesneg fel laith Ychwanegol: 0

Disgrifiad o’r Gweithgareddau yr Ymgymerwyd â Nhw

Cymerir yn ganiataol bod rhieni eisiau’r gorau i’w plant, ac yma yn Ysgol Feithrin Gurnos, teimlasom ein bod yn dymuno defnyddio’r arian a gawsom gan RHAGORI i symud tuag at weithio gyda phlant a’u rhieni i helpu codi lles a deallusrwydd emosiynol y ddau grŵp yn ein hardal yng Ngurnos. Cynhaliwyd trafodaethau yn ystod cyfarfodydd staff a chytunwyd y byddem yn defnyddio’r cwricwlwm SEAL i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Roedd thema ein meithrin wedi’i seilio ar y rhaglen dysgu unigol; Sgiliau Cymdeithasol.

Gan fod y prosiect hwn yn hunangynhaliol i Ddosbarth 2, y plant a fyddai’n cael eu targedu yn y dosbarth hwnnw fyddai’r rhai meithrin a chyn-meithrin a rhieni’r plant hyn, ond byddai’r prosiect yn wirfoddol, felly gallai’r rhieni penderfynu a fydden nhw neu eu plentyn yn cymryd rhan.

Bu i ni ddefnyddio ‘Pecyn Rhieni’ SEAL i gefnogi rhieni, yn bennaf;

Llyfr 1: Dechreuadau Newydd *Helpu eich plentyn i deimlo’n hyderus*

Llyfr 2: Gyrru ymlaen a Ffraeo *Siarad gyda a gwrando ar eich plentyn*

Llyfr 4: Mynd am Oliau *Helpu eich plentyn i gymell ei hun*

Rhoddwyd y taflenni i rieni eu darllen adref.

Rhannwyd y prosiect yn bedair rhan;

- **Dyddiaduron plant**

Gofynnwyd i’r rhieni fynychu cyfarfod lle dywedwyd wrthynt am y syniad o anfon dyddiaduron adref.

Byddai’r dyddiadur yn cynnwys gweithgareddau i’r plentyn a’r rhiant eu gwneud gyda’i gilydd. Byddai’r gweithgaredd naill ai’n adlewyrchu gwaith yr wythnos, dysgu am yr hyn roedd plentyn yn ei wybod am bwnc arbennig, neu’r hyn y byddai’r plentyn yn hoffi gwybod am y pwnc hwnnw. Er enghraifft, gofynnwyd i’r plant enwi’r holl greaduriaid y gallent a oedd yn byw wrth lan y môr. Nid oedd y pwnc yma wedi’i drafod ymlaen llaw, ei bwrpas oedd ein helpu ni, fel ymarferwyr, i ddarganfod beth yr oedd y plentyn yn ei wybod am fywyd mor. Hefyd, gofynnwyd iddynt beth yr hoffent ei ddysgu am fywyd mor. Rhoddodd hyn gyfle i’r plant gynllunio eu dysgu eu hunain; rhoddwyd y syniadau yn ein cynllunio wythnosol, gan roi ymdeimlad o les i’r plentyn pan ddefnyddiwyd eu gweithgaredd.

O’r ugain o blant yn y dosbarth, cytunodd 90% o rieni i gymryd rhan yn y prosiect. Dosbarthwyd y dyddiaduron bob dydd Gwener a chawsant eu dychwelyd y dydd Mercher olynol. Pan gawsant eu dosbarthu, gofynnodd y ddwy fam oedd wedi dewis peidio â chymryd rhan pe byddent yn cael cymryd rhan, er mai dim ond ychydig o weithgareddau y bu iddynt eu cwblhau ac ni welwyd y dyddiaduron eto. Cafodd y gweithgareddau eu gwahaniaethu ar gyfer plant meithrin a chyn-meithrin. Parhaodd y prosiect trwy gydol y flwyddyn ysgol.

- **Ymweld â’r traeth**

Thema’r ysgol gyfan ar gyfer 2009-2010 oedd ‘Stickman’ ac roedd rhaid i Ddosbarth 2 greu’r arddangosfa glan y môr sydd yn y stori. Cytunwyd y byddem yn mynd ar wibdaith ysgol i Ynys Y Barri ac adeiladu cestyll tywod (dysgu trwy brofiad) cyn i’r plant ddechrau ar eu gwaith ar gyfer yr arddangosfa. Gan mai dim ond ers tua chwe wythnos yr oedd y plant wedi bod yn yr ysgol feithrin, teimlwyd, er mai’r canllaw yw cymhareb o un oedolyn i bob dau blentyn ar wibdeithiau, y byddem yn gofyn i bob rhiant ddod hefyd, gan adeiladu cestyll tywod gyda’u plentyn unigol.

Dewiswyd Ynys Y Barri oherwydd y byddem yn gallu teithio yno ar y trên yn hytrach na llogi bws, gan helpu i leihau costau’r wibdaith. O’r ugain o blant sydd yn y dosbarth, cymerwyd un deg pedwar ohonynt gan eu rhieni. Roedd y daith yn llawn hwyl, er ei bod yn hynod o oer, mwynhaodd y plant gloddio yn y tywod a chasglu dŵr môr yn eu bwcedi. Yn anad dim, dangosodd y wibdaith y gwahaniaethau rhwng personoliaethau’r rhieni, gweithiodd y rhai swil gyda’u plentyn nhw yn unig, ond gweithiodd rhai o’r rhai mwy bywiog gyda’i gilydd ac adeilasant nifer o gestyll tywod, o wahanol feintiau.

Bu i ni allu defnyddio’r dystiolaeth a gasglwyd ar y trip i nodi pa blant a rhieni oedd ag angen cymorth ychwanegol wrth baratoi’r prosiect dyddiadur.

- **Grŵp rhieni**

Yn ystod tymor yr haf, bu i ni sefydlu grŵp rhieni; y syniad oedd iddynt gynhyrchu cwilt dosbarth. Byddai’r rhieni’n gweithio fel uned i wneud y rhan fwyaf o’r cwilt, ond byddai hefyd ganddynt y cyfle i weithio gyda’u plant eu hunain a phlant eraill i greu portread o’r plentyn.

Trefnwyd cyfarfod, a daeth yn agos i bob un o’r tri deg dau o famau iddo. Dywedwyd wrthynt am y dasg a gofynnwyd iddynt am eu help. Pwysleisiwyd nad oedd gwahaniaeth os nad oeddynt yn gallu pwytho; byddem yn gwerthfawrogi unrhyw help; defnyddio sisyrnau, tynnu llun templed neu dacio’r defnydd at ei gilydd. Y cwbl roedd gofyn iddynt ei wneud oedd cyfrannu awr neu ddwy o’u hamser i helpu gwneud y cwilt.

Nid oedd y sesiwn gyntaf gystal â’r disgwyl gan mai dim ond un rhiant a ddaeth, ond wrth i’r sesiynau ddatblygu, daeth gwahanol famau ac roeddem wrth ein bodd bod un tad wedi troi fyny i roi help llaw hefyd.

Roedd y plant wrth eu boddau’n gweld mam neu dad yn yr ysgol ac roeddynt yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau y gallent roi help llaw gyda nhw h.y. paentio’u hwynebau neu stwffio’r cwilt. Roedd rhywbeth a

gychwynnodd yn syniad i'r rhieni ddod i mewn i'r ysgol a gweithio gyda'r plant neu ei gilydd ar gyfer gôl benodol wedi troi'n achlysur cymdeithasol. Roeddynt yn sgwrsio ymysg ei gilydd, yn sgwrsio am eu plant ac yn mwynhau cwmni ei gilydd yn gyffredinol.

Hefyd, roeddynt yn dod ataf i neu aelodau oedolyn eraill dosbarth 2 i drafod anghenion eu plant neu i ofyn sut roeddem yn meddwl y byddent yn ymdopi yn yr ysgol fabanod, neu sut y gallent helpu eu plentyn yn ystod yr haf cyn dechrau yn y dosbarth derbyn.

- **Parti Gardd**

Ar ddydd Gwener olaf y tymor, bu i ni wahodd yr holl rieni i fynychu parti gardd yn yr Ysgol feithrin. Gan nad oeddem yn sicr o gael tywydd braf, roeddem yn mynd i'w gynnal yn y lloches. Roedd y lloches wedi'i haddurno â rhubanau a blodau, wedi'u dylunio gan y plant, a baner yn diolch i'r rhieni am y gefnogaeth ardderchog roeddem wedi'i chael yn ystod y flwyddyn academaidd.

Daeth mam pob plentyn; ond ni ddaeth yr un tad. I ddechrau, bu i ni ddangos y cwilt ac fe wnaeth Mrs Stevens y Pennaeth araith, gan ddiolch iddynt am eu cydweithrediad. Yna, fe'u gwahoddwyd i gyd i fwyta'r cinio bwffe oedd ar gael. I ddechrau, roedd yr ymateb yn siomedig, ond pan ddechreuodd y plant fwyta, fe wnaeth y mamau hefyd. Dechreuasant siarad gyda'i gilydd, gyda'r plant a'r staff.

Amcanion

Nodau'r prosiect oedd;

- Defnyddio rhaglen SEAL i wella lles emosiynol a hunan-fri plant fel eu bod yn ymgysylltu â dysgu a gwella datblygiad eu hiaith;
- Darparu cyfleoedd o Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant LlCC i wneud yn iawn am ddiffyg profiad plant trwy ymdrin â'u materion cymdeithasol ac emosiynol trwy siarad a gwrando, drama, ABGl a datblygu eu sgiliau meddwl.
- Gweithio gyda theuluoedd, gan annog rhieni i fod yn fwy o ran o fywyd yr ysgol

Canlyniadau

1. Gwella deallusrwydd emosiynol y plant.
2. Mae gan rieni well dealltwriaeth o weithio gyda'u plentyn.
3. Mae'n hawdd i rieni a phlant siarad gyda staff am eu hanghenion.
4. Mae rhieni'n datblygu sgiliau ar sut i gymell, canmol a hybu hyder eu plentyn trwy siarad gyda a gwrando arnyn nhw.

Allbynnau

1. Dyddiaduron i'w defnyddio eto'r flwyddyn academaidd nesaf.
2. Rhaglen Dysgu i'w rhoi ar waith fesul cam ochr yn ochr â maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol er mwyn cynyddu Lles y plant.
3. Cyflwyniad PowerPoint am y fenter i ddangos cynnydd y gwaith a gyfrannwyd gan y rhieni a'r plant.
4. Datblygu meysydd datblygiad personol, cymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol Gwaelodlin newydd LlCC i nodi plant sydd ag angen sylw arbennig i wella'u deallusrwydd emosiynol trwy grwpiau meithrin.
5. Sefydlu Grŵp Rhieni sy'n gofyn i'r rhieni weithio gyda'u plant y tu fewn a thu allan i'r ysgol a threfnu gweithgareddau ar gyfer y rhieni yn unig a fydd yn helpu i annog eu hunan-fri a'u hyder.

Disgrifiad o'r Broses Fonitro a Gwerthuso

Mae pob plentyn yn yr ysgol feithrin yn cael asesiad gwaelodlin chwe wythnos ar ôl iddynt ddechrau yn y meithrin. Dim ond pedair agwedd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y mae'r Waelodlin yn eu hystyried, sef

1. Setlo i amgylchedd yr ystafell ddosbarth
2. Gallu darparu ar gyfer y rhan fwyaf o anghenion
3. Yn chwarae gyda chymheiriaid.
4. Cysylltu a chydweithredu

Er nad yw'r agweddau hyn yn y pen draw yn cwmpasu lles emosiynol y plentyn, cafodd sgoriau'r plant eu gwerthuso'n gychwynnol ac yna eu hail-werthuso yn ystod tymor yr haf, a chafodd cynnydd y plant ei arfarnu. Cafodd y canlyniadau hyn eu monitro gan Mrs Stevens a chydnabuwyd bod y prosiect wedi helpu i wella sgôr gwaelodlin y plant.

Math arall o asesiad oedd y Proffil Datblygu Plentyn, sy'n cynnwys categori ar Les/Datblygiad Emosiynol. Mae'r proffil yn nodi ar ba gyfnod datblygiadol y mae plentyn yn hytrach na'u hoedran cronolegol. Dangosodd y canlyniadau hyn bod y mwyafrif o'r plant wedi cynyddu eu hoedran datblygiadol, ac eithrio un, (nad oedd yn meddu ar ddyddiadur).

Unwaith eto, fe ddangosodd, trwy ddefnyddio'r dyddiaduron a'r gefnogaeth a roddwyd i a chan y rhieni, ei fod wedi helpu cynnal os nad gwella lles neu ddatblygiad emosiynol y plant.

Er nad oeddem yn gallu gwerthuso na monitro ymatebion y rhieni, roeddem yn gallu gweld bod hunanhyder nifer o'r rhieni wedi gwella. Roeddynt yn ddigon hyderus i ddod i siarad efo'r staff ar nifer o achlysuron; cymerodd lawer ohonynt ran yn y grŵp rhieni a chynigasant helpu gyda nifer o weithgareddau ysgol.

At ei gilydd, wrth ddefnyddio cwricwlwm SEAL i gynnwys rhieni yng ngwaith eu plant, gwelwyd bod lles y plant yn gwella, felly mae Mrs Stevens wedi cytuno y byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dyddiadur y flwyddyn ysgol nesaf ac yn sefydlu grŵp rhieni eto, lle gallent helpu gyda dysgu eu plant eto.



9. Ysgol Babanod ac Iau Dowlais

Gwybodaeth Gyd-destunol

Mae Ysgol Gynradd Dowlais yn cynnwys cyn Ysgol Fabanod Dowlais ac Ysgol Iau Gwernllwyn. Mae'r ysgol yn ysgol gymysg Cynradd Cymunedol ac mae'n darparu ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed. Ar hyn o bryd, mae yna 223 o ddisgyblion ar y gofrestr. At ddibenion addysgu, mae'r ysgol wedi'i threfnu'n ddosbarth meithrin, yn uned blynyddoedd cynnar ar gyfer y dosbarth derbyn a blwyddyn 1 ac yn chwe dosbarth prif ffrwd arall ar ddau safle ar wahân. At hyn, mae gan yr ysgol Sail Adnoddau Addysgu lle caiff disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol eu hanfon gan yr Awdurdod.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda galluoedd is na'r cyfartaledd. Daw tua 75% o'r disgyblion o gefndiroedd dan anfantais economaidd. Mae tua 24% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac ystyrir bod gan tua 33% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig o ryw fath.

Disgrifiad o'r Gweithgareddau yr Ymgymerwyd â Nhw

Roedd mentrau RHAGORI blaenorol wedi datblygu llythrennedd a rhifedd grwpiau o ddisgyblion dan anfantais. Roedd y rhain wedi gwneud peth cynnydd, ond fe ddaeth yn amlwg bod angen i ni ystyried materion ehangach er mwyn parhau i godi cyrhaeddiad. Yn arbennig, er ein bod wedi ychwanegu gwerth at y grwpiau hyn o ddisgyblion, roedd y broblem yn parhau bod gan y disgyblion waelodlin isel pan roeddynt yn dechrau yn yr ysgol. Bu i ni nodi'r ffactorau a ganlyn yr oedd angen ymdrin â nhw er mwyn codi'r waelodlin:

- Cydnabod pwysigrwydd rôl y teulu yn natblygiad plant cyn ysgol
- Bod angen ymgysylltu rhieni a helpu rhoi'r sgiliau iddynt y mae arnynt eu hangen i helpu eu plant cyn ysgol

Er mwyn hwyluso cynnydd plant oedd yn yr ysgol yn barod, teimlasom fod angen ymagwedd debyg, hynny yw, cynnwys y rhieni mwy ym mywyd yr ysgol. Fodd bynnag, y newid mwyaf sylfaenol yn ein hymagwedd oedd ystyried agweddau cymdeithasol ac emosiynol dysgu plant. Roedd menter SEAL yn cyfuno'r ddau beth yma ac felly cynlluniwyd y gweithgareddau a ganlyn.

Cymorth i Blant cyn Ysgol a Rhieni

Cafodd disgyblion Blwyddyn 2 eu trosglwyddo i'r safle iau a chafodd yr ystafell ddosbarth a ryddhawyd wrth wneud hyn ei haddasu ar gyfer grŵp rhieni a phlant cyn ysgol. Cafodd Cynorthwyydd Cymorth Dysgu ('LSA') hyfforddiant pellach mewn iaith a chwarae a rhif a chwarae. Gwnaethpwyd hyn gydag arian RHAGORI. Cynlluniwyd rhaglen fanwl ac yn nhymor yr haf, cynhaliwyd sesiynau wythnosol ar gyfer iaith a chwarae a rhifedd a chwarae.

Er mwyn annog arferion da yn y cartref ac yn yr ysgol, bu i ni hybu a gwobrwyo ymddygiad da bob tro. Cafodd plant eu gwobrwyo gyda sticeri a'u canmol. Cafodd plant nad oeddynt mor rhagweithiol gydag ymddygiad da eu hatgoffa'n rheolaidd a'u hannog i ymddwyn mewn ffordd briodol a'u gwobrwyo a'u canmol pan fyddant yn ymddwyn mewn ffordd dda. Darparodd hyn fodel cyson ar gyfer rhieni wrth iddynt hybu ymddygiad da yn y cartref.

Cafodd pecynnau adnoddau eu cynhyrchu i rieni eu defnyddio yn y cartref gyda'u plant ac fe'u hanogwyd i gwblhau tasgau cartref-ysgol. Teimlasom y byddai tasgau cartref-ysgol cynnar yn annog plant i feddu ar agwedd dda at eu gwaith cartref yn y dyfodol yn ogystal â rhoi cyfle ardderchog i blant a rhieni treulio amser ansawdd gyda'i gilydd.

Yn ystod sesiynau iaith, bu i ni hybu gwrando ar storïau a chanu rhigymau. Anogwyd rhieni i ddefnyddio'r rhain adref.

Yn ystod ein sesiynau rhifedd, bu i ni annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol. Ein nod oedd datblygu dealltwriaeth y plant o drefn a maint ac fe anogwyd y plant i ddefnyddio iaith lleoli gan ddefnyddio'r tri arth, powlenni a llwyau. Eto, anogwyd rhieni i barhau gyda'r strategaethau hyn adref.

Bu i ni annog rhieni a phlant i ganu gyda'i gilydd ar y mat. Esboniwyd i rieni bod canu gyda'u plant yn annog hyder a hunan-fri.

Pwysleisiwyd i'r rhieni pa mor bwysig yw datblygu sgiliau echddygol manwl ac annog datblygiad creadigol y plant. Dangoswyd i'r rhieni rhai cyfleodd posibl ar gyfer gwneud hyn gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau syml y gellid eu gwneud adref. Hefyd, bu i ni esbonio pwysigrwydd arddangos gwaith plant a chynhyrchu arddangosfa o'u gwaith yn y dosbarth. Anogwyd rhieni i arddangos eu gwaith yn y cartref, er enghraifft ar yr oergell.

Bu i ni esbonio i rieni pa mor bwysig yw annog chwarae o ansawdd da a rhoi'r cyfle i blant archwilio a datblygu eu creadigrwydd. Awgrymwyd na ddylai rhieni chwarae gormod o ran yn chwarae plant gan fod angen rhyw faint o amser a lle ar blant i archwilio a dysgu'n annibynnol.

Cyflwyno SEAL fel Ysgol Gyfan a Chlwstwr

Cynhaliwyd cyflwyniad clwstwr i SEAL i'r holl staff. Pwysleisiodd hyn broffil uchel a phwysigrwydd y prosiect a sicrhaodd bod pawb yn cael ei gynnwys.

Cynhaliwyd cyfarfodydd staff a HMS pellach i sicrhau bod SEAL wedi'i ledaenu i'r holl staff gan gynnwys aelodau nad oeddynt yn addysgu. At hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd clwstwr yn rheolaidd i fonitro a chynllunio cyflwyniad SEAL.

Roedd y prosiect wedi'i ariannu'n dda trwy arian RHAGORI ac roedd staff yn gallu defnyddio ystod eang o ddeunyddiau.

Nawr, mae pob wythnos yn dechrau gyda gwasanaeth iau wedi'i arwain gan y pennaeth. Mae hwn yn cyflwyno'r pwyslais am yr wythnos. Mae'r babanod yn cael cyflwyniadau mewn grwpiau bach. Datblygwyd y materion yn ystod yr wythnos a chwblhawyd gweithgareddau dosbarth a oedd wedi'u gwahaniaethu. Roedd adnoddau RHAGORI'n arbennig o effeithiol a rhoddasant lawer o ddewis o ran y deunyddiau a ddefnyddiwyd. Eleni, rydym yn targedu gweithgareddau dilynol i rieni gyda'n Rhith-amgylchedd Dysgu'n rhoi cyfle perffaith i gynnwys teuluoedd.

Cwblhawyd asesiadau gwaelodlin trwy ddefnyddio, i gychwyn, deunyddiau a disg asesu SEAL. Fodd bynnag, nawr mae'r deunydd Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS) wedi'i fabwysiadu.

Cynnwys Disgyblion a Chynorthwywyr Ystafell Fwyta (DRAs).

Cafodd grŵp o ddisgyblion eu hyfforddi'n 'PALS' a bu iddynt helpu i drefnu gweithgareddau amser egwyl ac amser cinio ar gyfer y plant. Bu i ni ddefnyddio'r adnoddau helaeth a gawsom trwy fenter PASS blaenorol.

Prynodd yr ysgol CD a llyfryn hyfforddiant a darparwyd HMS ar gyfer yr holl DRAs. Roedd y rhain yn cysylltu â gwaith 'PALS' ac yn pwysleisio rheoli ymddygiad positif a sut i ymdrin â digwyddiadau yn y maes chwarae.

Ymgymerodd grŵp arall o blant â rhaglen deng wythnos o hyfforddiant mewn datrys gwrthdaro gyda'n Hathro Cymorth Ymddygiad.

Amcanion

1. Ein prif amcan oedd codi gwaelodlin plant sy'n dod i mewn i'r ysgol feithrin gyda'r bwriad, yn y pen draw, o godi cyrhaeddiad, ar ddiwedd cyfnod un a dau. Cafodd grŵp o tua un ar ddeg o blant eu targedu a byddant yn cael eu monitro bob blwyddyn.
2. Amcan arall oedd nodi teuluoedd a phlant eraill, mewn ffordd effeithiol, a fyddai'n elwa o gael eu cynnwys mwy ym mywyd yr ysgol. Teimlwyd nad oedd defnyddio prydau ysgol am ddim yn ddigonol wrth nodi plant o'r fath.
3. Amcan mwy hirdymor oedd codi hyder a hunan-fri'r holl blant, ond yn arbennig y rheiny sy'n dod o gefndir dan anfantais, gan arwain at well cyrhaeddiad academaidd.
4. Pedwerydd amcan oedd cynnal y fenter trwy ddarparu mecanweithiau i gefnogi teuluoedd a phlant yn y dyfodol.

Monitro a Gwerthuso

Amcan 1

Yn y cychwyn, roedd y plant yn rhedeg o gwmpas ac nid oedd ganddynt gysyniad o eistedd ar y carped nac o drefnau arferol dosbarth meithrin. Hefyd, nid oedd yr ymddygiad na'r rhyngweithio â phlant eraill yn briodol ar gyfer rhai plant. Hanner ffordd trwy'r fenter LAP a NAP, newidiwyd trefn y dydd yn fwriadol er mwyn gwerthuso'r cynnydd hyd yma. Braf oedd gweld bod y plant yn eistedd ar y carped yn awtomatig pan roeddynt yn cyrraedd ac ar adegau priodol eraill. Roedd ymdeimlad o drefn a phatrymau ymddwyn priodol wedi'u sefydlu. Erbyn diwedd y tymor gofynnwyd am farn rhieni

Roedd pob ymateb yn bositif ac ymhlith yr ymatebion safonol roedd:

"Rydw i wedi dechrau canu rhigymau yn y car nawr"

"Rydym yn cyfrif ceir o liw arbennig"

"Mae hyn wedi fy nghymryd yn ôl i'r cychwyn gyda rhigymau"

"Yn aml, mae fy mhlentyn yn yr adran iau yn dod â phethau adref y mae wedi'u gwneud yn yr ysgol a nawr mae fy mab iau yn gwneud yr un peth ac rydym yn eu rhoi nhw ar yr oergell gyda'n gilydd"

"Roeddwn i wrth fy modd â rhai o'r gweithgareddau chwarae anniben, yn arbennig rhoi powdwr siocled yfed ar hambwrdd ac ymarfer ysgrifennu llythrennau. Rydym yn gwneud hyn adref gyda'n gilydd"

"Nid oeddwn i'n sylweddoli bod Llyfrgell Dowlais yn gwneud yr holl bethau hyn ac rydym wedi ymuno â'r llyfrgell a'r grŵp plant bach yno"

Roedd rhieni'n awyddus i'r grŵp yma barhau a bu iddynt annog eraill i gymryd rhan. Y tymor hwn, dywedodd yr athrawes feithrin ei fod yn hawdd adnabod y rhieni hynny oedd wedi mynychu'r grŵp trwy eu hymddygiad a'r ffordd roeddynt yn rhyngweithio gyda phlant eraill.

Ni fu unrhyw alwadau ffôn gan rieni yn ystod yr wythnos gyntaf i weld sut roedd eu plant. Hefyd, ni fu'n rhaid i unrhyw blant adael yn gynnar (arhosiad byr). Roedd y grŵp cyswllt yn dawelach o lawer.

Amcan 2

Bu'r asesaid PASS yn hawdd ei weinyddu yn yr adran iau, ond roedd angen mwy o gymorth yn yr adran babanod. Roedd y canfyddiadau cychwynnol wedi cadarnhau nad oedd prydau ysgol am ddim yn fesur digon soffistigedig wrth dargedu teuluoedd. O ganlyniad i'r ystod eang o baramedrau cymdeithasol ac emosiynol y mae PASS yn eu mesur, nodwyd plant na fyddai fel arall wedi'u targedu.

Amcan 3

Mae hwn yn agwedd fwy hir dymor ac fe fydd yn cael ei werthuso yn yr haf.

Amcan 4

Mae pecynnau teulu'n cael eu cynhyrchu i rieni ynghyd â gweithgareddau ar ein Rhith-Amgylchedd Dysgu. Caiff hwn ei werthuso yn yr haf.

Nodiadau